

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales



Gwerthusiad o Wyliau Bwyd a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Cyfnod Ariannol Ebrill 2014–2015



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dilys Parker
Uwch Reolwr – Datblygu Busnes
Yr Is-adran Fwyd
Llywodraeth Cymru
Ffôn: 0300 062 203
E-bost: dilys.parker@cymru.gsi.gov.uk

Llun y clawr blaen o Wyl Fwyd Arberth

Cynnwys

Cynnwys	i
Crynodeb Gweithredol.....	1
1 Cyflwyniad a Dull.....	8
1.1 Cyflwyniad	8
1.2 Dull Methodolegol y Gwerthusiad	10
2 Cefnogi Gwyliau Bwyd	12
2.1 Cyd-destun Polisi.....	13
2.2 Lefelau Cyllido.....	14
2.3 Y Broses Ymgeisio	15
2.4 Barn am y Broses Ymgeisio	16
2.5 Crynodeb	18
3 Yr Arddangoswyr mewn Gwyliau Bwyd.....	19
3.1 Y Dull Samplu a Holi	19
3.2 Canfyddiadau'r Arolwg.....	20
3.3 Presenoldeb mewn Gwyliau Bwyd	28
3.4 Effaith Gwyliau Bwyd	36
3.5 Crynodeb	40
4 Mynychwyr Gwyliau Bwyd	41
4.1 Cyflwyniad	42
4.2 Proffil y Mynychwyr/Ymwelwyr	43
4.3 Agweddau Mynychwyr Gwyliau Bwyd.....	53
5 Tueddiadau yn y Sector	56
5.1 Gwyliau Bwyd sy'n 'seiliedig ar le'	56
5.2 Cydweithio	58
6 Effaith Economaidd Gwyliau Bwyd.....	61
6.1 Gwariant Cynnal Gŵyl Fwyd.....	61
6.2 Effaith Gwariant Ymwelwyr/Mynychwyr mewn Gwyliau Bwyd	62
6.3 Dylanwad Presenoldeb mewn Gwyliau Bwyd ar Werthiannau Anuniongyrchol Arddangoswyr	64
6.4 Crynodeb	65

7	Crynodeb o'r Canfyddiadau.....	67
	Atodiad A – Crynodebau o'r Gwyliau Bwyd Unigol.....	71
	Gŵyl Fwyd y Fenni.....	71
	Gŵyl Fwyd Biwmares	81
	Gŵyl Fwyd Conwy.....	91
	Gŵyl Fwyd Arberth.....	99
	Gŵyl Fwyd Casnewydd.....	108
	Gŵyl Fwyd Sain Ffagan	116

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Yn ystod 2015 cafodd 25 gŵyl fwyd yng Nghymru gyllid grant gan Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru, a'r cyllid wedi dod o gyllideb ganolog Llywodraeth Cymru. Wrth wraidd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i wyliau bwyd mae *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020*,¹ gyda'r nod o dyfu'r sector bwyd a diod o 30 y cant i £7 biliwn erbyn 2020.

Mae'r gwerthusiad hwn yn rhoi tystiolaeth ynghylch sut y mae cyllid Llywodraeth Cymru i wyliau bwyd yn cyfrannu at y camau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu uchod² yn enwedig o ran:

- codi proffil bwyd o Gymru (e.e. Pwynt Gweithredu 36)
- mynd ati'n gydlynol i ddatblygu'r sector (e.e. Pwyntiau Gweithredu 33 a 43)
- darparu cyfleoedd i ddysgu, datblygu sgiliau a rhwydweithio (e.e. Pwyntiau Gweithredu 4, 5 a 21)
- cefnogi arloesi a datblygu cynnyrch/marchnadoedd (e.e. Pwyntiau Gweithredu 8, 20 a 31)
- hyrwyddo'r iaith Gymraeg (e.e. Pwynt Gweithredu 11)
- cefnogi busnesau bychain mewn sectorau bwyd allweddol (e.e. Pwyntiau Gweithredu 14, 19 a 23)
- gwella'r gallu i gael gafael ar fwyd o Gymru (e.e. Pwynt Gweithredu 45).

Mae'r gwerthusiad ynddo'i hun yn cyfrannu data gwaelodlin ac yn rhoi darlun cliriach o ran strategaeth i ddatblygu'r farchnad, fel y nodir ym Mhwynt Gweithredu 12.

¹ Llywodraeth Cymru, 2014, *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020*: <http://gov.wales/docs/drah/publications/Tourism/150310food-tourism-action-plan-cy.pdf>

² ibid

Dull

Mae'r gwerthusiad yn disgrifio gwyliau bwyd o safbwynt trefnwyr y digwyddiadau, yr arddangoswyr a'r mynychwyr, a'r gwaith wedi cynnwys y canlynol:

1. Ymgynghoriadau â chynrychiolwyr allweddol o Lywodraeth Cymru.
2. Cyfweiliadau ffôn gyda 25 o drefnwyr gwyliau bwyd a rhanddeiliaid eraill yn y sector.
3. Holi sampl o 250 o gynhyrchwyr a oedd wedi arddangos yn y gwyliau bwyd yn 2015.
4. Holi 909 o fynychwyr yn y chwe gŵyl fwyd yr aeth tîm ymchwil Wavehill iddynt. Dyma'r chwe gŵyl a fynychwyd:
 - Gŵyl Fwyd y Fenni
 - Gŵyl Fwyd Biwmares
 - Gŵyl Fwyd Conwy
 - Gŵyl Fwyd Casnewydd
 - Gŵyl Fwyd Sain Ffagan
 - Gŵyl Fwyd Arberth.
5. Dadansoddi'r holl dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad, gan gynnwys dadansoddi'r effaith economaidd drwy ddefnyddio dulliau sy'n cydymffurfio â dulliau Llywodraeth y Deyrnas Unedig³ i amcangyfrif yr effaith ychwanegol net sy'n deillio o wyliau bwyd.

³ Gweler, er enghraifft, Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi, Llyfr Magenta, a chanllawiau sy'n gysylltiedig â'r dull Fframwaith Gwerthuso Effaith a grëwyd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) ar gyfer Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol.

Prif Ganfyddiadau

Cefnogi gwyliau bwyd

- Cafodd 25 gŵyl fwyd gefnogaeth yn 2015, gyda gwerth eu grant gan Lywodraeth Cymru yn amrywio o £1,700 i £15,225.
- Parhau i ostwng y mae lefel y cyllid sydd ar gael i wyliau bwyd a nifer y ceisiadau am gyllid i gynorthwyo gwyliau bwyd.
- Yn 2015 cyflwynwyd system ymgeisio â haenau iddi, er mwyn lleihau'r gofynion gwaith papur wrth ddyfarnu grantiau bychain a rhoi modd i wyliau bwyd mwy o faint wneud cais am symiau uwch o gyllid.
- Ceir ymdeimlad fod y broses ymgeisio yn dioddef o amserlenni tynn, sydd wedi arwain at feirniadaeth gan ymgeiswyr.
- Nid yw rhai o drefnwyr y gwyliau mawr yn teimlo bod y weithdrefn ymgeisio yn adlewyrchu'n ddigonol gwerth eu gŵyl y tu hwnt i'r sector bwyd.

Arddangoswyr yn y gwyliau bwyd

- Mae data monitro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod 930 o wahanol sefydliadau/busnesau wedi arddangos mewn gwyliau bwyd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015.
- Roedd 76 y cant o'r rhai oedd yn arddangos yn y gwyliau wedi'u lleoli yng Nghymru.
- Roedd bron i ddau draean (64 y cant; 597/930) y busnesau wedi arddangos mewn un ŵyl yn unig.
- O'r 250 o arddangoswyr a holwyd, roedd 39 y cant o'r busnesau yn iau na phedair blwydd oed.
- Roedd 92 y cant o'r arddangoswyr a holwyd yn cyflogi llai na 10 o weithwyr ac roedd trosiant 40 y cant ohonynt yn llai na £25,000.
- Mae tua phedwar o bob pump o'r ymatebwyr (81 y cant) yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru mewn gwyliau bwyd.
- Dywedodd hanner (50 y cant) yr ymatebwyr bod mynychu gwyliau bwyd yng Nghymru wedi dylanwadu ar ddatblygu eu cynnyrch.

Mynychwyr gwyliau bwyd

- Holwyd cyfanswm o 909 o fynychwyr ledled y chwe gŵyl yr aeth y tîm ymchwil iddynt.
- Mae gwahaniaeth mawr ym maint dalgylch y gwyliau bwyd gwahanol.
- Y rheswm a roddwyd amlaf am fynychu gwyliau bwyd yw er mwyn prynu cynnyrch lleol.
- I rai gwyliau bwyd, enw da'r digwyddiad yw'r ffactor denu pwysicaf, tra bydd eraill yn manteisio ar eu lleoliad yn agos at ganolfannau poblogaeth mawr neu gyrchfannau i dwristiaid.
- Câi digwyddiadau y clod uchaf yn gyffredinol am y cludfwyd neu fwyd tecawê oedd ar gael ac am amrywiaeth y bwyd a diod oedd ynddynt.
- Nid yw'r lefelau mwynhad a adroddwyd bob amser yn ddigonol i egluro a yw mynychwyr yn bwriadu dychwelyd y flwyddyn nesaf ai peidio.
- Mae'n bosibl fod gwyliau bwyd sy'n para mwy na diwrnod yn elwa o gael mynychwyr yn aros ynddynt yn hirach, ond nid yw hyn bob amser yn wir.
- Y gwariant cyfartalog fesul oedolyn yw £24.74 ledled y chwe gŵyl yr ymchwiliwyd iddynt.
- Ond mae'r gwariant yn amrywio'n sylweddol ymysg y gwyliau bwyd gwahanol, ac yn gysylltiedig agos â pha mor hir y mae mynychwyr yn aros mewn gŵyl.
- Cred mynychwyr yn gryf fod tarddiad bwyd yn bwysig, er nad ydynt yn cael y cyfle bob amser i brynu bwyd o Gymru yn eu siopa arferol.

Tueddiadau yn y sector

- Mae rhai gwyliau/digwyddiadau yn ehangu eu harlwy i feysydd nad ydynt yn gysylltiedig â bwyd ac felly o bosibl yn cydgysylltu ag amryw o faterion, gan gynnwys datblygu economaidd lleol, hyrwyddo diwylliant lleol a thwristiaeth.
- Mewn cyferbyniad, mae gwyliau/digwyddiadau eraill yn gweithredu'n fwy syml fel llwyfan i gynhyrchwyr lleol.
- Mae ymdrechion i ffurfio Cymdeithas Gwyliau Bwyd wedi'u gohirio oherwydd diffyg capasiti gweinyddol, dymuniad rhai gwyliau i gadw eu hannibyniaeth, a chyfeiriadau strategol wahanol y digwyddiadau.

- Mae'n bosibl fod potensial ar gyfer mwy o gydweithredu rhwng grwpiau o wyliau bwyd ar faterion penodol, er ei bod yn debygol bellach fod angen trydydd parti i hwyluso hyn.

Effaith economaidd gwyliau bwyd

- Amcangyfrifir bod yr arian sy'n cael ei wario gan drefnwyr i gynnal gwyliau bwyd yn rhoi hwb o £1.4m i'r economi.
- Mae mynychwyr yn gwario amcangyfrif o £3.82m mewn gwyliau bwyd (yn seiliedig ar wariant a adroddwyd yn y digwyddiadau yr ymwelwyd â nhw).
- Amcangyfrifir bod yr ymwelwyr sy'n cael eu denu i wyliau bwyd o'r tu allan i Gymru yn dod â £3.7m ychwanegol i economi Cymru (yn seiliedig ar wariant a adroddwyd gan ymwelwyr yn y gwyliau bwyd yr ymwelwyd â nhw).
- Gall gwerth gwyliau bwyd i'r arddangoswyr mewn gwerthiant anuniongyrchol fod yn sylweddol uwch na'r gwerthiannau a wnaed yn y digwyddiadau eu hunain (amcangyfrifir bod gwerthiannau anuniongyrchol yn £17m, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arddangoswyr).

Themâu pwysig o'r adroddiad

Mae'r rhan fwyaf o arddangoswyr yn fusnesau micro sydd o bosibl ond yn mynychu gwyliau bwyd lleol

Mae'r rhan fwyaf o arddangoswyr yn hunangyflogedig, gyda'r gweddill yn cyflogi ond nifer fach o staff. Ymddengys fod cynhyrchwyr bach yn canolbwyntio ar ddatblygu marchnadoedd lleol, ac mae llawer yn dilyn strategaeth sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau ond yn osgoi teithio i ddigwyddiadau y tu allan i'w hardal darged er mwyn lleihau costau. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y byddai'n werth ystyried rhoi cymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr bach tuag at eu strategaeth fusnes i oresgyn costau mynychu gwyliau bwyd y tu allan i'w hardal leol efallai, os yw'n briodol.

Mae pwysigrwydd strategol gwyliau bwyd i arddangoswyr yn mynd y tu hwnt i werthu uniongyrchol

Yn ogystal â gwerthu eu nwyddau, mae arddangoswyr yn ystyried digwyddiadau yn gyfle i hyrwyddo a marchnata eu busnes ac i gynnal ymchwil a gweithgareddau datblygu. Fodd bynnag, ceir amrywiaeth yn y graddau y mae arddangoswyr yn gwneud y gweithgareddau hyn ac efallai fod cyfle i hyrwyddo arfer gorau yn rhai o'r meysydd hyn (e.e. gwneud yn siŵr fod manylion cwsmeriaid newydd yn cael eu cofnodi er mwyn cysylltu â nhw yn y dyfodol, cynnal profion, casglu adborth yn ymwneud â marchnata (megis pecynnu, enwau cynnyrch, graddfa prisiau)).

Mae gwyliau bwyd yn hyrwyddo cynnyrch Cymru yn effeithiol

Awgryma canlyniadau o'r gwerthusiad bod trefnwyr y gwyliau bwyd a'r arddangoswyr yn weithredol yn hyrwyddo cynnyrch o Gymru, ac mae rhai arddangoswyr wedi rhoi enghreifftiau o sut y maent wedi ceisio'n mynd ati'n benodol i gysylltu eu nwyddau â'r brand 'cynnyrch o Gymru'. Mae yna hefyd gyfleoedd naturiol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, e.e. gall rhoi enwau Cymraeg ar frandiau bwyd a diod bwysleisio eu dilysrwydd. Mae mynychwyr hefyd yn gwerthfawrogi'n fawr iawn gwybod beth yw tarddiad eu bwyd, ond nid ydynt o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r cyhoedd yn ehangach yn hyn o beth. Mae tystiolaeth hefyd y gall fod yn bwysig gwella'r gallu i gael gafael ar fwyd a diod o Gymru, ynghyd â'r dewis sydd ar gael, pan fo'r mynychwyr yn dychwelyd adref ar ôl mynychu gŵyl fwyd.

Gall gwyliau bwyd dorri ar draws gwahanol feysydd polisi

Mae cyfraniad rhai gwyliau bwyd yn torri ar draws sawl maes yn adrannau'r llywodraeth, gan gynnwys datblygu economaidd, twristiaeth, adfywio, a chydlyniant cymunedol. Mae cyfiawnhad economaidd cryf dros gefnogi gwyliau bwyd, yn ogystal â chyfiawnhad diwylliannol gellid dadlau, ond cryfheir y ddadl hon, mewn rhai achosion, drwy gydnabod y rôl ehangach y gall y gwyliau bwyd ei chyflawni. O safbwynt yr Is-adran Fwyd, gellid cefnogi sector bwyd a diod Cymru ar wahanol bwyntiau yn y gadwyn gyflenwi, o ddarparu cymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr (ymyriadau ar yr ochr gyflenwi) i hybu'r galw am gynnyrch Cymru (ymyriadau ar ochr y galw). Mae digwyddiadau bwyd o bosibl yn fath unigryw o ymyrraeth gan eu bod yn eistedd yn daclus rhwng ymyriadau ar yr ochr gyflenwi ac ochr y galw, ond nid ydynt yr unig strategaeth ar gyfer cefnogi'r farchnad bwyd a diod.

1 Cyflwyniad a Dull

1.1 Cyflwyniad

Yn ystod 2015 cafodd 25 gŵyl fwyd yng Nghymru gyllid grant gan Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru, sef cyllid wedi dod o gyllideb ganolog Llywodraeth Cymru. Mae cyllid grant wedi cael ei gynnig i wyliau bwyd yng Nghymru ers 2002. Mae'r gwerthusiad hwn yn disgrifio gwyliau bwyd o safbwynt trefnwyr y digwyddiadau, yr arddangoswyr a'r mynychwyr. Mae'r ymchwil yn cyflwyno canfyddiadau dau arolwg mawr a wnaed yn holi arddangoswyr a mynychwyr, yn ogystal â chanfyddiadau cyfweliadau mwy ansoddol gyda threfnwyr gwyliau bwyd. Edrychodd yr ymchwil hefyd ar y ffurflenni cais a'r cynlluniau busnes a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

Amlinellwyd y disgwyliadau ar gyfer y gwerthusiad fel a ganlyn:

- ymweld â chwe gŵyl fwyd sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru
- gwerthuso effaith gwyliau bwyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar y sector bwyd a diod yng Nghymru, gan gynnwys asesu gwerth am arian
- cynnal adolygiad manwl o'r ceisiadau am gyllid, a dogfennau ategol, gan nodi tueddiadau a darparu dadansoddiad ystadegol
- cynnal arolwg gyda sampl o gynhyrchwyr sy'n mynychu pob gŵyl fwyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- cofnodi ymweliadau safle ac adroddiadau ysgrifenedig byr ar y gwyliau bwyd a fynychwyd
- mesur yn glir y cymorth grant a roddwyd yn erbyn y meini prawf a osodwyd a'r ceisiadau a gyflwynwyd.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn rhoi tystiolaeth ynghylch sut y mae cyllid Llywodraeth Cymru i wyliau bwyd yn cyfrannu at y camau a amlinellir yn *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020*, yn enwedig o ran:

- codi proffil bwyd o Gymru (e.e. Pwynt Gweithredu 36)
- mynd ati'n gydlynol i ddatblygu'r sector (e.e. Pwyntiau Gweithredu 33 a 43)
- darparu cyfleoedd i ddysgu, datblygu sgiliau a rhwydweithio (e.e. Pwyntiau Gweithredu 4, 5 a 21)
- cefnogi arloesi a datblygu cynnyrch/marchnadoedd (e.e. Pwyntiau Gweithredu 8, 20 a 31)
- hyrwyddo'r iaith Gymraeg (e.e. Pwynt Gweithredu 11)
- cefnogi busnesau bychain mewn sectorau bwyd allweddol (e.e. Pwyntiau Gweithredu 14, 19 a 23)
- gwella'r gallu i gael gafael ar fwyd o Gymru (e.e. Pwynt Gweithredu 45).

Mae'r gwerthusiad ynddo'i hun yn cyfrannu data gwaelodlin ac yn rhoi darlun cliriach o ran strategaeth datblygu'r farchnad, fel y nodir ym Mhwynt Gweithredu 12.

Mae'r adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

Mae **Pennod 2** yn disgrifio cefnogaeth Llywodraeth Cymru i wyliau bwyd ac yn rhoi adborth ar y broses ymgeisio.

Mae **Pennod 3** yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg â'r arddangoswyr, gan adolygu cefndir a phroffil arddangoswyr ac ymchwilio i'w hargraffiadau a'u barn am y gwyliau bwyd a fynychwyd ganddynt.

Mae **Pennod 4** yn cyflwyno canfyddiadau'r atebion i'r arolwg wyneb-yn-wyneb â mynychwyr mewn chwe gŵyl fwyd. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth ar ddalgylchoedd, cymhelliant mynychwyr i ddod i'r gwyliau bwyd, beth oedd eu barn am wahanol elfennau o'u profiad, faint o amser y maent yn ei dreulio yn y digwyddiadau ynghyd â faint o arian maent yn ei wario yno.

Mae **Pennod 5** yn trafod rhai o'r tueddiadau sydd fel petaent yn datblygu yn y sector, gan ddisgrifio un ffordd y mae'r sector yn arallgyfeirio ynghyd â rhai o'r rhwystrau a'r cyfleoedd i gydweithio.

Ym **Mhennod 6** ceir amcangyfrifon canolog o'r effaith economaidd sy'n deillio o'r gwyliau bwyd yng Nghymru.

Mae **Pennod 7** yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ac yn cyflwyno rhywfaint o naratif ar y themâu sydd wedi codi.

1.2 Dull Methodolegol y Gwerthusiad

Defnyddiwyd casgliad o ddulliau i gasglu tystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad hwn:

1. Ymgynghoriadau â chynrychiolwyr allweddol o Lywodraeth Cymru.
2. Cyfweiliadau ffôn gyda 25 o drefnwyr gwyliau bwyd a rhanddeiliaid eraill yn y sector.
3. Holi sampl o 250 o gynhyrchwyr a oedd wedi arddangos yn y gwyliau bwyd yn 2015.
4. Holi 909 o fynychwyr yn y chwe gŵyl fwyd yr aeth tîm ymchwil Wavehill iddynt. Dyma'r chwe gŵyl a fynychwyd:
 - Gŵyl Fwyd y Fenni
 - Gŵyl Fwyd Biwmares
 - Gŵyl Fwyd Conwy
 - Gŵyl Fwyd Casnewydd
 - Gŵyl Fwyd Sain Ffagan
 - Gŵyl Fwyd Arberth.

Mae crynodeb unigol o bob un o'r gwyliau bwyd hyn yn Atodiad yr adroddiad hwn.

5. Dadansoddi'r holl dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad, gan gynnwys dadansoddi'r effaith economaidd drwy ddefnyddio dulliau sy'n cydymffurfio â dulliau Llywodraeth y Deyrnas Unedig⁴ i amcangyfrif yr effaith ychwanegol net sy'n deillio o wyliau bwyd.

Wrth nodi themâu a thueddiadau, mae naratif yr adroddiad, ar adegau, hefyd yn tynnu ar werthusiadau blaenorol a gynhaliwyd gan Wavehill ar wyliau bwyd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, cynhaliwyd 77 cyfweliad â threfnwyr/rhanddeiliaid gwyliau bwyd, cynhaliwyd 2,229 cyfweliad â mynychwyr y digwyddiadau, a chyfwelwyd 640 o arddangoswyr.

⁴ Gweler, er enghraifft, Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi, Llyfr Magenta, a chanllawiau sy'n gysylltiedig â'r dull Fframwaith Gwerthuso Effaith a grëwyd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) ar gyfer Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol.

2 Cefnogi Gwylliau Bwyd

Yn y bennod hon ceir trosolwg byr o'r cyd-destun polisi yn cefnogi gwylliau bwyd cyn bwrw ati i ddisgrifio'r lefelau cyllido a'r broses ymgeisio. Daw'r bennod i ben drwy gyflwyno adborth gan drefnwyr gwylliau bwyd, gan ystyried eu profiadau wrth wneud cais am gyllid.

Crynodeb

- Wrth wraidd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r gwylliau bwyd mae'r *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020*. Nod Llywodraeth Cymru yw tyfu'r sector bwyd a diod o 30 y cant i £7 biliwn erbyn 2020
- Cafodd 25 gŵyl fwyd gefnogaeth yn 2015, gyda gwerth eu grant gan Lywodraeth Cymru yn amrywio o £1,700 i £15,225
- Parhau i ostwng y mae lefel y cyllid sydd ar gael i wyliau bwyd a nifer y ceisiadau am gyllid i gynorthwyo gwylliau bwyd
- Yn 2015 cyflwynwyd system ymgeisio â haenau iddi, er mwyn lleihau'r gofynion gwaith papur wrth ddyfarnu grantiau bychain a rhoi modd i wyliau bwyd mwy o faint wneud cais am symiau uwch o gyllid
- Ceir ymdeimlad fod y broses ymgeisio yn dioddef o amserlenni tynn, sydd wedi arwain at feirniadaeth gan ymgeiswyr
- Nid yw rhai o drefnwyr y gwylliau mawr yn teimlo bod y weithdrefn ymgeisio yn adlewyrchu'n ddigonol gwerth eu gŵyl y tu hwnt i'r sector bwyd.

2.1 Cyd-destun Polisi

Y ddogfen bolisi allweddol sy'n sail i'r Cynllun Cymorth Grant Bwyd a Diod yw'r *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020*, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y 'Cynllun Gweithredu'. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio pwysigrwydd strategol y sector bwyd a diod ac yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn anelu at dyfu'r sector 30 y cant i £7 biliwn erbyn y flwyddyn 2020. Yn 2014, maint y sector, gan gynnwys y gadwyn gyflenwi a manwerthu, yn ôl y ddogfen hon oedd:

- 23,300 o fusnesau
- £17.3 biliwn mewn trosiant
- £4 biliwn mewn gwerth ychwanegol gros (GVA)
- 170,000 o swyddi⁵

Ystyrid bod cefnogi gwyliau bwyd yn un ffordd y gall Llywodraeth Cymru hwyluso twf yn y sector.

Ystyrir hefyd fod bwyd Cymru yn frand cryf posibl y gellir ei hyrwyddo i dwristiaid. Mae'r *Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd i Gymru (2015-2020)*⁶ yn adeiladu ar y cynllun gweithredu blaenorol 2009-2013, ond mae'n targedu'r pum maes allweddol a nodwyd yn *Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth (2013–2020)*⁷ gyda Croeso Cymru, sef hyrwyddo brand Cymru, datblygu'r cynnyrch a'r bobl, meithrin lle a chynyddu perfformiad. Yn gyffredinol, y nod yw codi ymwybyddiaeth o fwyd a diod Cymru a'r uchelgais yn y pen draw yn 2020 yw integreiddio twristiaeth bwyd yn gyfan gwbl i weithgareddau Croeso Cymru a gwneud Cymru yn gyrchfan Twristiaeth Bwyd o ansawdd.

⁵ O ddadansoddiad Llywodraeth Cymru ei hun, sy'n gyson â datganiad ystadegau'r sector blaenoriaethol

⁶ Llywodraeth Cymru, 2014, *Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd i Gymru*, <http://gov.wales/docs/drah/publications/Tourism/150310food-tourism-action-plan-cy.pdf>

⁷ Llywodraeth Cymru, 2013, *Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth (2013–2020)* <http://gov.wales/docs/drah/publications/Tourism/130613partnershipforgrowthcy.pdf>

2.2 Lefelau Cyllido

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu cyllid grant i wyliau bwyd ers 2002, a hynny ar y dechrau drwy gyllid craidd Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru ac wedyn drwy Gynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi (drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru) am gyfnod o dair blynedd rhwng 2009 a 2012, cyn dychwelyd i gyllid craidd Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru.

Bu cyfyngiadau sylweddol yn y grant cymorth yn sgil cwblhau Cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi, ynghyd â chyfyngiadau ehangach ar gyllid y sector cyhoeddus a chryfhau'r dymuniad (fel y dangosir ym mholisi Llywodraeth Cymru) i annog gwyliau bwyd i weithredu yn ariannol gynaliadwy. Mae cyfanswm lefel y cyllid, felly, wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf ac mae ffigur 2015 o £137,571 yn cynrychioli gostyngiad o 25 y cant o'r lefel a ddyfarnwyd yn y flwyddyn flaenorol (£184,311), ac mae'n llai na hanner y swm a gymeradwywyd yn 2012 (£327,444).

Mae'r grantiau a gafodd gwyliau bwyd yn rownd ariannu 2015 yn amrywio o £1,700 i £15,225. Y dyfarniad cyfartalog (cymedrig) ledled y gwyliau bwyd oedd £5,503, er bod y dyfarniad 'nodweddiadol' (canolrif) ychydig yn is na hyn, sef yn £5,000, gan adlewyrchu'r gogwydd a achosir gan nifer fechan o ddyfarniadau mwy o faint (er enghraifft, roedd dau ddigwyddiad mawr cenedlaethol blaenllaw wedi cael grantiau o fwy na £14,000).

Mae cyfradd yr ymyrraeth (sef cyfran costau'r wyl y mae cronfeydd Llywodraeth Cymru yn talu amdanynt) yn amrywio o 4 y cant o gyfanswm y costau i 42 y cant, sydd, yn rhannol, yn adlewyrchu'r gwahaniaeth yng ngraddfa'r costau sy'n gysylltiedig â phob gŵyl fwyd. Mae'r gostyngiad yn y lefel uchaf o 61 y cant yn 2014 yn adlewyrchu'r gostyngiad yn swm y cyllid gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i wyliau bwyd llai o faint.

2.3 Y Broses Ymgeisio

Er bod cyfanswm lefel y cyllid wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am y cyllid hwn gan drefnwyr gwyliau bwyd wedi aros yn uchel. Roedd nifer y ceisiadau am gymorth grant yn 2015 (28 cais) yr un fath ag yn 2014, er yn is na ffigur 2013 (33 cais). Fel y trafodir yn Adran 2.4, nid yw nifer y ceisiadau a dderbyniwyd mewn blynyddoedd penodol o reidrwydd yn fesur perffaith o'r galw, gan fod rôl hefyd o bosibl i ffactorau eraill (megis hyd y cyfnod ymgeisio).

Bu newid yn y broses ymgeisio yn 2015. Yn gyntaf, cyflwynwyd dull haenau, sef bod gwyliau bwyd oedd am wneud cais am symiau bach o arian (hyd at £ 5,000) yn gymwys i haen isaf y cyllid. Roedd yr haen is hon yn golygu llai o ofynion gwaith papur i'r ymgeisydd ac, wrth wneud hynny, yn ymateb rhywfaint i'r adborth gan drefnwyr gwyliau bwyd mewn blynyddoedd blaenorol fod y broses yn rhy fiwrocraidd mewn achosion pan fo'r dyfarniad yn y pen draw yn gymharol fach. Roedd hyn wedi bod yn bryder penodol i'r gwyliau llai o faint heb staff llawn-amser sy'n aml wedi'u rhedeg gan wirfoddolwyr. Yn 2015, roedd dewis yr haen isaf yn dileu'r angen i gyflwyno cynllun busnes llawn a dogfennau ategol eraill.

Roedd yr haen uchaf, ar y llaw arall, yn gofyn am y ddogfennaeth ychwanegol hon a'r cynllun busnes ac ati, ond eto yn rhoi modd i wyliau bwyd wneud cais am swm uwch o arian (hyd at £25,000) nag oedd wedi bod yn bosibl o'r blaen, unwaith eto yn mynd rywfaint o'r ffordd i unioni'r anghydbwysedd canfyddedig rhwng gofynion y broses o wneud cais a'r dyfarniad a dderbynnid. Roedd yna hefyd haen ganol rhwng y ddwy arall, sef haen wedi'i chynllunio'n bennaf ar gyfer gwyliau bwyd arbenigol canol eu maint (e.e. digwyddiadau yn canolbwyntio ar fath penodol o fwyd) lle gellid ymgeisio am ddyfarniadau hyd at £10,000. Nid oedd llawer wedi manteisio ar yr ail haen, er bod un dyfarniad wedi'i roi i ŵyl bwyd môr.

Tabl 2.1: Crynodeb o gyllid Llywodraeth Cymru i wyliau bwyd yn rownd cyllid 2015 yn ôl haen

Haen	Nifer y gwyliau a gefnogwyd	Cyfartaledd (cymedr) grant a gymeradwywyd	
1	22	£	4,483
2	1	£	9,335
3	2	£	14,803
Cyfan	25	£	5,503

Dyma ran o'r meini prawf ymgeisio:

- i ymgeiswyr Haen 1 a Haen 2 – rhaid i 75 y cant o'r holl arddangoswyr fod yn arddangoswyr bwyd a diod, ac o'r rhain rhaid i 70 y cant ohonynt fod yn arddangoswyr bwyd a diod o Gymru.
- i ymgeiswyr Haen 3 – rhaid i 80 y cant o'r holl arddangoswyr fod yn arddangoswyr bwyd a diod, ac o'r rhain rhaid i 65 y cant ohonynt fod yn arddangoswyr bwyd a diod o Gymru.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r broses ymgeisio wedi rhoi pwyslais nid yn unig ar hyrwyddo bwyd a diod o Gymru, ond hefyd ar annog arloesedd yn y sectorau, yn unol â'r Cynllun Gweithredu (gweler Pwynt Gweithredu 20, er enghraifft). O edrych ar y ceisiadau yn ystod y tair blynedd diwethaf, ymddengys bod rhywfaint o gynnydd i'r cyfeiriad hwn. Yn benodol, mae rhoi gwybodaeth i ymwelwyr am fwyd Cymru ac arddangosiadau coginio byw yn dod yn elfen a welir yn amlach yn y gwyliau bwyd, yn ôl y cynigion a ddisgrifir yn y ffurflenni cais.

2.4 Barn am y Broses Ymgeisio

Awgryma cyfweiliadau â threfnwyr gwyliau bwyd fod derbyniad da wedi bod i gyflwyno'r system haenau, o ran y gostyngiad cysylltiedig mewn gwaith papur a chodi'r nenfwd ariannu. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau hyn i ryw raddau wedi'u cysgodi ym meddyliau'r trefnwyr gwyliau gan y cyfnod byr o amser yr oedd yn rhaid i ymgeiswyr gyflwyno eu ceisiadau.

Anfonwyd manylion y cyllid a'r ffurflenni ymgeisio dros e-bost at holl ymholwyr ac ymgeiswyr blaenorol gwyliau bwyd ar y 3^{ydd} Mawrth 2015, a chyhoeddwyd manylion llawn yr amserlen, y broses a'r ffurflenni cais ymgeisio hefyd ar adran briodol gwefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'u rhyddhau i'r wasg ranbarthol yng Nghymru.

Er mwyn rhoi mwy o amser i drefnwyr gyflwyno ceisiadau ar gyfer 2015, lansiodd dau gyfnod ymgeisio: y cyntaf oedd â dyddiad cau i geisiadau ar y 18^{fed} Mawrth 2015, ac yna ail gyfnod o geisiadau o 27^{ain} Ebrill hyd at y dyddiad cau o 15^{fed} Mai 2015. Cyflwynwyd y cyfnod cynharach er mwyn i'r gwyliau bwyd cynnar hynny a gynhelid ym mis Ebrill a Mai gael cyfle i gyflwyno ceisiadau.

Gallai trefnwyr felly gael 10 wythnos i gyflwyno eu cais, er y gall hyn ymddangos yn llawer llai os collwyd y cyfnod ymgeisio cyntaf. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y gwyliau bwyd llai o faint yn tueddu i redeg gyda chnewyllyn o staff (neu yn aml gwirfoddolwyr), yn enwedig ar adegau'r flwyddyn sydd y tu allan i gyfnod cynllunio a chynnal yr ŵyl, ac felly roeddynt yn dal yn teimlo y byddai cyfnod hirach yn fuddiol.

Y dull a ffafrir, y soniwyd amdano gan lawer o'r trefnwyr, fyddai gallu gwneud cais am gyllid ar gyfer mwy na blwyddyn. Nid yn unig y byddai hyn yn darparu'r sicrwydd nad oes gan lawer o'r gwyliau bychain mohono, ond byddai hefyd yn lleihau'r angen i ymateb yn gyflym i derfynau ymgeisio am gyllid bob blwyddyn ac yn lleihau ymhellach y gofynion gwaith papur hefyd. Ond yn y pen draw, mae'r Is-adran Fwyd eu hunain yn gweithio o fewn cyfyngiadau yn hyn o beth, gan fod eu cyllid blynyddol hwythau yn amodol ar gymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru, a hynny'n atal ariannu dros sawl blwyddyn yn ogystal â nacáu cyfnod ymgeisio hirach fel y byddai trefnwyr yn ddelfrydol yn ei ddymuno.

Roedd ymdeimlad gan rai o'r gwyliau bwyd fod y meini prawf yn mynd yn llai perthnasol iddynt, wrth i'w digwyddiad ddatblygu. Mae dwy elfen i hyn. Yn gyntaf, gall ehangder rhai o'r gwyliau fynd y tu hwnt i fwyd a diod, a threfnwyr felly yn teimlo bod y meini prawf ond yn cydnabod rhan o'u cyfraniad. Gall cyfraniadau rhai o'r gwyliau dorri ar draws nifer o feysydd adrannau'r llywodraeth gan gynnwys datblygu economaidd, twristiaeth, adfywio, a chydlyniant cymunedol. Yn ail, er nad oes dwywaith fod croeso i'r cynnydd yn y terfyn cyllid, eto mae'r grant a dderbyniwyd yn dal yn gyfran fechan yn unig o gyfanswm costau'r gwyliau mwy o faint. Er yr ystyrir y cyfraniad yn ddefnyddiol iawn, rhaid i drefnwyr rai o'r gwyliau mwyaf, serch hynny, ystyried y 'costau' ymgeisio yn erbyn y manteision, yn enwedig pan fo'r meini prawf sy'n cyd-fynd â'r cyllid yn anelu at gadw'r digwyddiadau i ganolbwyntio'n llym ar fwyd a diod, ac nad yw hynny o bosibl yn gydnaws â chyfeiriad strategol ambell wyl.

2.5 Crynodeb

I grynhoi, cyflwynwyd cyfnod ymgeisio cynnar a system ymgeisio â haenau iddi yn 2015 i geisio lleddfu'r pwysau amser a gwaith papur ar drefnwyr gwyliau bwyd, ond roedd cynrychiolwyr rhai o'r gwyliau llai o faint yn dal wedi'i chael yn anodd i gyrraedd y dyddiad cau. Teimlai rhai o gynrychiolwyr rhai gwyliau bwyd fod y meini prawf ymgeisio yn canolbwyntio'n rhy gul ar y sector bwyd i lwyr gyfleu gwerth eu digwyddiad yn llawn. Mae cyllid Llywodraeth Cymru i wyliau bwyd wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i benderfyniadau polisi sydd wedi'u cynllunio i annog gwyliau bwyd i fynd yn hunangynaliadwy ac sy'n tanlinellu'r tynhau ar y gyllideb genedlaethol (Cymru). Mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau, a pharhau hefyd fydd y rheidrwydd ar wyliau bwyd i hunanariannu (neu ddod o hyd i ffynonellau eraill cyllid grant).

3 Yr Arddangoswyr mewn Gwyliau Bwyd

Mae'r bennod hon yn archwilio adborth yr arolwg ar 250 o arddangoswyr mewn gwyliau bwyd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru yn 2015, gan adolygu cefndir a phroffil yr arddangoswyr ac ymchwilio i'w canfyddiadau a'u barn am y digwyddiadau y maent wedi'u mynychu.

Crynodeb

- Mae data monitro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod 930 o wahanol sefydliadau/busnesau wedi arddangos mewn gwyliau bwyd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015
- Roedd 76 y cant o'r rhai oedd yn arddangos yn y gwyliau bwyd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Roedd bron i ddau draean (64 y cant; 597/930) y busnesau wedi arddangos mewn un ŵyl yn unig
- O'r 250 o arddangoswyr a holwyd, roedd 39 y cant y busnesau yn iau na phedair blwydd oed
- Roedd 92 y cant o'r arddangoswyr a holwyd yn cyflogi llai na 10 o weithwyr ac roedd trosiant 40 y cant ohonynt yn llai na £25,000
- Mae tua phedwar o bob pump o'r ymatebwyr (81 y cant) yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru mewn gwyliau bwyd
- Dywedodd hanner (50 y cant) yr ymatebwyr bod mynychu gwyliau bwyd yng Nghymru wedi dylanwadu ar ddatblygu eu cynnyrch

3.1 Y Dull Samplo a Holi

Bu'r tîm gwerthuso yn casglu ac yn dadansoddi'r rhestrau sydd ar gael o'r arddangoswyr mewn gwyliau bwyd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Drwy hyn nodwyd y canlynol:

- amcangyfrifir bod 930 o sefydliadau/busnesau gwahanol wedi arddangos yn y gwyliau bwyd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru yn 2015 (ychydig yn is na'r amcangyfrif o nifer yr arddangoswyr yn y gwyliau a ariannwyd yn 2014, sef 985).

- Roedd 76 y cant o'r rhai oedd yn arddangos yn y gwyliau bwyd wedi'u lleoli yng Nghymru (73 y cant yn 2014, 77 y cant yn 2013).
- Roedd bron i ddau draean (64 y cant; 597/930) y busnesau wedi arddangos mewn un ŵyl yn unig (yn debyg i ganrannau 2014 a 2013 o 66 y cant a 68 y cant yn y drefn honno), er bod tuag 20 y cant (182/930) wedi arddangos mewn tair neu fwy o wyliau bwyd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Cyn bwrw at i ddewis samplau a holi, tynnwyd pob cynhyrchwyr nad oeddynt o Gymru a'r rhai na chofnodwyd eu lleoliad (oedd yn cyfateb i 220 o arddangoswyr) o'r ffrâm samplo. Yna tynnwyd sampl ar hap o'r 710 o arddangoswyr oedd yn weddill, ac yna cysylltwyd â'r sampl hwnnw o 250 a gofyn iddynt gwblhau arolwg dros y ffôn.


3.2 Canfyddiadau'r Arolwg

3.2.1 Proffil a nodweddion yr arddangoswyr

Mae Ffigwr 3.1 yn dangos gwasgariad daearyddol yr arddangoswyr a gymerodd ran yn yr arolwg, o'i gymharu â phroffil yr holl arddangoswyr o Gymru. Mae'r siart yn dangos bod sampl yr arolwg yn fras gynrychioliadol, er bod Gwynedd heb gynrychiolaeth ddigonol o bell ffordd. Fodd bynnag, dylid nodi fod y sampl o bosibl wedi'i ogwyddo rhywfaint ar un ystyr, gan fod rheidrydd dechrau ar yr arolwg cyn bod pob un o'r gwyliau wedi'u cynnal, oherwydd amserlen y gofynion adrodd a llunio'r adroddiad. Ni ellid, er enghraifft, gynnwys gwyliau bwyd neu ddigwyddiadau a gynhaliwyd dros gyfnod y Nadolig.

Dengys y siart mai arddangoswyr o'r siroedd mawr, gwledig yn bennaf, sydd fwyaf cyffredin mewn gwyliau bwyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gorsymleiddio yw meddwl bod arddangoswyr yn dod o ardaloedd gwledig yn unig, gan fod 6 y cant wedi'u lleoli yng Nghaerdydd yn unig. Yr hyn y gellir ei ddweud yw yr ymddengys bod niferoedd arbennig o isel o arddangoswyr o Torfaen, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Phen-y-bont ar Ogwr yng nghymoedd y De.


Ffigwr 3.1: Lleoliad arddangoswyr gwyliau bwyd o Gymru yn ôl awdurdod lleol



n = 710 (yr holl arddangoswyr o Gymru) a 250 (sampl yr arolwg)

Gofynnwyd i bob arddangoswr yn yr arolwg pa mor hir yr oeddynt wedi bod yn masnachu. Fel y dangosir yn Ffigwr 3.2 isod, roedd dros chwarter (28 y cant; 69/250) wedi'u hen sefydlu, ac wedi bod yn masnachu ers 10 mlynedd neu fwy, tra bod bron i draean (32 y cant; 80/250) yn iau na thair blynedd (yr un ffigwr oedd 31 y cant yn 2014 a 33 y cant yn 2013). Mae'r dosbarthiad oedran yn debyg iawn i'r hyn a gafwyd yn yr arolygon a gynhaliwyd yn 2013 a 2014, ac mae'n atgyfnerthu'r rôl sydd gan wyliau bwyd yn cefnogi busnesau newydd ac yn hyrwyddo cyfleoedd i roi prawf ar fasnach neu dreialu cynhyrchion newydd.

Ffigwr 3.2: Ym mha flwyddyn y dechreuodd eich busnes fasnachu?




n=250

Gofynnwyd i fusnesau hefyd roi manylion ynghylch nifer y staff y maent yn eu cyflogi. Ar gyfartaledd (cymedr) nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn (FTE) fesul arddangoswr yw 3.9.

Fodd bynnag, mae Ffigwr 3.3 yn dangos bod ychydig dros hanner (51 y cant; 127/249) o'r holl arddangoswyr a holwyd yn fasnachwyr hunangyflogedig nad ydynt yn cyflogi unrhyw staff ychwanegol, ac mae gan 92 y cant lai na 10 aelod o staff FTE (yr un ffigwr oedd 90 y cant yn 2014 ac yn 2013 ill dau). Roedd y sefydliad/busnes mwyaf yn cyflogi cyfanswm o 60 o staff FTE. Mae gwyliau bwyd, felly, yn cefnogi micro-fusnesau yn bennaf, er y gellid ystyried y dosbarthiad hefyd i fod yn adlewyrchiad o faint busnesau yng Nghymru yn gyffredinol, gan fod micro-fusnesau yn cyfrif am bron i 95 y cant o'r holl fusnesau yng Nghymru (ONS, 2015).

Ffigwr 3.3: Faint o bobl ydych chi fel rheol yn eu cyflogi?




n=249

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi trosiant eu busnes am y flwyddyn ariannol ddiweddaraf. Manylir am drosiant yr arddangoswyr yn Ffigwr 3.4 isod, yn ogystal â chymharu busnesau iau (a sefydlwyd ers 2013) â'r rhai sydd yn o leiaf dair blwydd oed. Mae trosiant ychydig dros 40 y cant (80/190) o'r holl arddangoswyr a holwyd yn £25,000 neu lai, gan godi i 56 y cant ymhlith y rhai iau; ac mae trosiant bron i dri chwarter o'r holl arddangoswyr a holwyd (71 y cant; 135/190) yn £100,000 neu lai.

Fel y gellid disgwyl, mae'r arddangoswyr iau yn fwy tebygol o ymddangos yn y dosbarth trosiant isaf ac yn llai tebygol o ymddangos yn y dosbarth trosiant uchaf. Awgryma'r siart y gellid disgwyl i draean o'r masnachwyr ifanc yn y dosbarth trosiant isaf symud o'r categori hwn maes o law. Er y gallai hyn ddigwydd wrth i fusnesau ifanc dyfu wrth iddynt aeddfedu, ffactorau damcaniaethol posibl eraill yw marwolaethau busnes ac/neu duedd i fusnes roi'r gorau i arddangos wrth aeddfedu.

Ffigwr 3.4: Beth oedd eich trosiant blynyddol yn y flwyddyn ariannol flaenorol?



n=190 (nid yw'n cynnwys busnesau nad oeddynt wedi cwblhau blwyddyn ariannol, rhai oedd wedi ateb 'ddim yn gwybod', a'r rhai oedd wedi gwrthod ateb)


Mae nifer y micro-fusnesau ifanc yn dangos y rôl y gall gwyliau bwyd ei chael wrth ddatblygu busnesau bach a chanolig eu maint yn y sector, a hynny wedi'i nodi yn bwysigrwydd strategol yn y Cynllun Gweithredu (gweler Pwyntiau Gweithredu 8, 14, 19 a 30, er enghraifft).

Dangosir amrywiaeth y cynnyrch a werthir gan arddangoswyr yn Ffigwr 3.5 isod. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae cludfwyd, melysion a diodydd alcoholig ymhlith y cynnyrch mwyaf cyffredin a werthir mewn gwyliau bwyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd mai dyma'r math o stondinau a geir ym mhob gŵyl, tra bod arddangoswyr cynnyrch penodol (e.e. cig coch, bwyd môr) yn fwy tebygol o ymddangos mewn rhai gwyliau bwyd ond nid eraill. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd lleoliad y gwyliau (yn enwedig yn achos bwyd môr) ond hefyd yn dibynnu ar y cyfleusterau sydd ar gael (e.e. pan fo angen rhewyddio a chyfarpar cadw bwyd yn oer).

Mae'n werth nodi hefyd ei bod yn ymddangos bod 'bwyd i fynd' wedi dringo'r rhestr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yng ngwerthusiad 2014 gwelwyd cynnydd yng nghyfran yr arddangoswyr oedd yn gwerthu pethau melys ac alcohol ac mae'r ffigurau hyn wedi aros yn uchel yn 2015. Mae cludfwyd neu fwyd tecawê wastad wedi cyfrif am gyfran gymharol uchel o'r arddangoswyr ac erbyn hyn mae awgrym bod arddangoswyr eraill yn dechrau sicrhau bod eu cynnyrch ar gael ar ffurf i'w cludo er mwyn manteisio ar y duedd hon. Er enghraifft, mae cyfran yr arddangoswyr sy'n cynnig cynnyrch cig coch (a allai gynnwys byrgyrs a selsig) wedi codi o 4 y cant o'r arddangoswyr yng ngwyliau bwyd 2013 i 6 y cant yn 2014 a 9 y cant yn 2015. Yn yr un modd, mae bwyd wedi'i baratoi/bwyd parod wedi codi o 1 y cant o'r arddangoswyr yng ngwyliau bwyd 2013 i 5 y cant yn 2014 a 6 y cant yn 2015. Mewn cyferbyniad, nid yw bwydydd mwy traddodiadol, megis ffrwythau a llysiau, dofednod a helgig, a gweddillion cig coch heb ei brosesu, wedi tyfu fel hyn ac, mewn rhai achosion, ymddengys eu bod wedi dirywio (er bod ffigurau flwyddyn ar ôl blwyddyn yn agored i rywfaint o amrywiadau ar hap oherwydd y canrannau bychain).

Mae hyn yn gyson â thueddiadau cyfredol yn y sector, ond gall effeithio ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector. Mae cig, cynnyrch llaeth, pysgodfeydd, pobyddiaeth, a dofednod/wyau ymhlith yr is-sectorau blaenoriaeth, yn ôl y Cynllun Gweithredu (gweler Pwynt Gweithredu 14), ynghyd â bwydydd a diodydd wedi'u pecynnu sy'n barod i'w cynhesu/bwyta. Mae'n bosibl nad yw'n hollbwysig ynddo'i hun a yw bwyd o Gymru yn cael ei brynu heb ei brosesu ynteu fel 'bwyd i fynd' (i'w fwyta yn y man prynu neu gydag ychydig iawn o baratoi yn y cartref), cyhyd ag y caiff y duedd ei chydabod a bod cefnogaeth yn cael ei theilwra yn unol â hynny. Yn wir, mae'r gwerth ychwanegol a ddaw o ymestyn y gadwyn gyflenwi, a'r gwerth ychwanegol cymharol uchel a ddaw o brosesu bwyd, o bosibl yn cynyddu cyfraniad economaidd y sector.

Ffigwr 3.5: Pa nwyddau ydych chi'n eu gwerthu mewn gwyliau bwyd?




n=250

Sylwer: Mae'r cyfansymiau yn uwch na 100 y cant gan y gallai'r arddangoswyr ddewis sawl opsiwn.

Gofynnwyd i arddangoswyr sut roeddynt yn arfer gwerthu eu nwyddau y tu hwnt i'r gwyliau bwyd. Mae Ffigwr 5.6 yn dangos bod arddangoswyr yn fwyaf cyffredin yn gwerthu mewn ffeiriau neu ddigwyddiadau eraill, er bod cyfran sylweddol yn gwerthu eu nwyddau trwy siopau manwerthu neu yn uniongyrchol i fusnesau eraill, megis sefydliadau bwyd a diod. Mae'r ffaith fod 60 y cant o arddangoswyr yn gwerthu eu nwyddau mewn ffeiriau a digwyddiadau eraill o ddiddordeb arbennig, o ystyried y canfyddiad blaenorol fod dau draean yr arddangoswyr wedi ymddangos mewn un wyl fwyd yn unig. Er nad yw'r rhan fwyaf o arddangoswyr yn dilyn 'cylchdaith' y gwyliau bwyd o gwmpas y wlad, eto mae eu hymddangosiad, serch hynny, yn awgrymu rhan o strategaeth ehangach sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau. Efallai mai'r esboniad symlaf am hyn yw ei bod yn well gan arddangoswyr aros yn eu hardal leol. Mae hyn hefyd fel petai'n gyson â'r canfyddiadau bod arddangoswyr yn fusnesau eithaf bach (sydd heb y modd i deithio o amgylch y wlad) a hefyd yn fusnesau eithaf ifanc (sydd o bosibl eisiau cryfhau eu sylfaen yn lleol cyn ehangu tuag allan).

Ffigwr 3.6: Y tu allan i wyliau bwyd, sut ydych chi fel rheol yn gwerthu eich nwyddau?



n=250

Sylwer: Mae'r cyfansymiau yn uwch na 100 y cant gan y gallai'r arddangoswyr ddewis sawl opsiwn.

Mae pwysigrwydd arddangoswyr yn dilyn strategaeth glir sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau wedi dod yn fwyfwy amlwg yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yng ngwyliau bwyd 2013, dim ond 25 y cant o arddangoswyr oedd yn gwerthu eu nwyddau mewn ffeiriau neu ddigwyddiadau eraill, tra bod y ffigwr yn 44 y cant yn 2014 ac yn 60 y cant yn 2015. Yn ddiddorol, fodd bynnag, mae cyfran yr arddangoswyr sy'n ymddangos yn benodol mewn marchnadoedd ffermwyr wedi aros yn eithaf cyson yn ystod y cyfnod hwn, felly mae'r cynnydd hwn o bosibl wedi digwydd wrth i arddangoswyr fynychu digwyddiadau nad ydynt yn seiliedig ar fwyd. Mae canlyniadau 2015 hefyd yn dangos cynnydd yng nghyfran yr arddangoswyr oedd yn gwerthu eu nwyddau ar-lein (sef 32 y cant, sy'n uwch na'r 26 y cant yn ffigyrau 2014). Y duedd olaf sy'n werth ei nodi yw'r cynnydd cyson yn yr arddangoswyr sy'n gwerthu nwyddau trwy siopau manwerthu, gan fod 44 y cant o arddangoswyr wedi gwneud hynny yn 2015, yn uwch na'r 41 y cant yn 2014 a'r 31 y cant yn 2013.


3.3 Presenoldeb mewn Gwyliau Bwyd

Er bod dau draean (64 y cant; 597/930) o'r holl arddangoswyr wedi mynychu un wyl yn unig, mae dadansoddi pellach yn dangos bod tuag 20 y cant (182/930) o arddangoswyr mewn gwirionedd wedi mynychu tair gŵyl fwyd neu fwy. Felly, er y gellir nodweddu'r rhan fwyaf o arddangoswyr fel busnesau sydd wedi'u hangori i ardal arbennig, mae hwn yn ddarlun wedi'i orsymleiddio rhywfaint. Yn wir, mae rhai arddangoswyr wedi mynychu mwy na 10 o'r gwyliau, sy'n awgrymu y gall fod yna is-grŵp bach o arddangoswyr sy'n cylchdeithio i ryw raddau o wyl fwyd i wyl fwyd.

Mae Ffigwr 3.7 isod yn dangos nifer cyfartalog (cymedrig) y gwyliau bwyd y mae arddangoswyr o wahanol feintiau wedi'u mynychu. Mae hyn yn dangos bod arddangoswyr mwy o faint yn gyffredinol yn fwy tebygol o fynychu rhagor o wyliau bwyd. Ymddengys fod hyn yn cyd-fynd â'r rhagdybiaeth sy'n awgrymu bod lleoliaeth llawer o arddangoswyr yn nodwedd *ddibynnol* a all fod yn syml yn symptomatig o'u diffyg adnoddau (boed yn ariannol neu'n ddynol) i fanteisio ar gyfleoedd da yn rhannau eraill y wlad, er enghraifft.


Wrth ddehongli Ffigwr 3.7 isod, cofier bod arddangoswyr canolig eu maint yn cynrychioli dim ond 1 y cant o'r sampl, ac felly mae'n bosibl fod y ffigyrau a ddangosir ar gyfer y grŵp hwn yn agored i wall samplu sylweddol.

Ffigwr 3.7: Nifer cyfartalog y gwyliau bwyd a fynychwyd yn ôl maint y busnes



Er mwyn gweld a yw busnesau iau yn cael eu denu at unrhyw wyl fwyd benodol, dadansoddwyd presenoldeb y masnachwyr hynny sy'n iau na thair blwydd oed. Fel y dangosir yn Ffigwr 3.8 isod, byddai patrymau presenoldeb yn awgrymu bod Casnewydd a Wrecsam yn apelio'n arbennig at fusnesau sydd wedi'u sefydlu'n fwy diweddar, gan fod mwy na hanner yr ymatebwyr a oedd yn bresennol yn y gwyliau bwyd hyn yn iau na 3 blwydd oed. Sylwer ei bod yn debygol fod rhywfaint o wall yn rhai o'r ffigyrau hyn, gan y gall union nifer yr arddangoswyr a holwyd sydd wedi mynychu gwyl benodol fod yn eithaf bach. Serch hynny, mae'r egwyddor gyffredinol fod rhai gwyliau bwyd yn fwy tebygol o apelio at arddangoswyr newydd, yn hytrach na rhai sefydledig, i'w gweld fel petai'n wir, er na wyddys y rhesymau am hyn.

Ffigurwr 3.8: Cyfran yr arddangoswyr a holwyd ym mhob gŵyl sy'n iau na thair blwydd oed




n=250

Gofynnwyd i arddangoswyr ddatgan eu rhesymau dros fynychu gwyliau bwyd. Mae'r ymatebion a ysgogwyd i'w gweld yn Ffigur 3.9 isod. Mae'r canlyniadau yn debyg i ganfyddiadau arolwg 2014, gan ddangos bod yna lu o resymau pam fod arddangoswyr yn penderfynu mynychu gwyliau bwyd. Cyfleoedd i werthu'n uniongyrchol ac i hyrwyddo cynnyrch lleol oedd yr atebion a roddwyd amlaf. Roedd yr ysgogydd mwyaf cyffredin o werthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd i'w ddisgwyl, ond mae'n werth nodi bod 93 y cant o arddangoswyr wedi mynychu er mwyn marchnata eu cynnyrch. Awgryma hyn nad yw gwerth y gwyliau bwyd i arddangoswyr wedi'i grisialu'n ddigonol dim ond drwy edrych ar werthiannau uniongyrchol, ond yn hytrach bod arddangoswyr yn tybio fod rhywfaint o werth pellach i'w presenoldeb ac mae'n debyg y disgwylir i hyn amlygu ei hun yn y pen draw drwy werthiant ychwanegol. Er bod pennu gwerth i'r gwerthiannau anuniongyrchol hyn yn broblem, ni ellir ei anwybyddu'n llwyr wrth amcangyfrif gwerth economaidd gwyliau bwyd ac fe'i trafodir ymhellach ym Mhennod 5. Mae'r Cynllun Gweithredu⁸ yn cyfeirio sawl gwaith at gefnogi ymchwil, datblygu ac arloesedd yn y sector (e.e. Pwynt Gweithredu 20) a helpu busnesau i ddatblygu marchnadoedd (e.e. Pwynt Gweithredu 31).

⁸ Llywodraeth Cymru, 2014, *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020*: <http://gov.wales/docs/drah/publications/Tourism/150310food-tourism-action-plan-cy.pdf>

Ffigwr 3.9: Pa rai o blith y canlynol yw'r rhesymau pam yr ydych yn mynychu gwyliau bwyd?



n=250

Er nad oedd fawr o amrywiaeth yn yr ymatebion ar draws busnesau newydd a rhai mwy sefydledig, eto roedd perchnogion busnesau newydd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod yn mynychu gwyliau bwyd er mwyn marchnata eu cynnyrch yn rhywle arall neu ddatblygu cynnyrch newydd; roedd 91 y cant o'r ymatebwyr yr oedd eu busnes yn iau na thair blwydd oed wedi nodi hyn fel rheswm dros eu presenoldeb, o'i gymharu â 79 y cant o'r busnesau yn gyfan gwbl. Nid oedd ychwaith fawr o amrywiaeth yn yr ymatebion yn seiliedig ar drosiant y busnes, er mai busnesau llai o faint (sydd â throsiant o £25,000 neu lai) oedd yn fwyaf tebygol o adrodd bod eu presenoldeb mewn gwyliau bwyd yn gyfle iddynt ennill mwy o arian yn ystod cyfnod yr ŵyl.

3.3.1 Hyrwyddo Bwyd a Diod o Gymru

Gofynnwyd i'r arddangoswyr yn yr arolwg a oeddynt yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo a gwerthu bwyd a diod Cymru yn y gwyliau bwyd, ac 81 y cant (203/250) ohonynt yn cadarnhau eu bod yn gwneud hynny. Mae'r canlyniad hwn yn debyg i'r hyn a gafwyd yn arolwg 2014, lle adroddodd 82 y cant o arddangoswyr eu bod yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo a gwerthu bwyd a diod o Gymru. Gall dehongli'r cwestiwn hwn fod yn anodd. Y demtasiwn o bosibl yw neidio i'r casgliad bod ~80 y cant o arddangoswyr yn hyrwyddo ac yn gwerthu eu nwyddau yn benodol fel 'cynnyrch o Gymru'. Er y gallai hyn fod yn wir, gellid dadlau bod arddangoswyr sy'n digwydd bod yn gwerthu cynnyrch o Gymru, ond nad ydynt yn defnyddio hyn i hyrwyddo a gwerthu eu nwyddau, hefyd wedi ateb yn gadarnhaol. Wedi dweud hynny, mae'r sylwadau agored a roddwyd gan ymatebwyr i egluro eu hateb yn ymddangos, gan mwyaf, fel petaent yn cyfeirio at y dehongliad cyntaf, yn hytrach na'r ail.

"Mae gennym ddwsin o'n cymysgedd ein hunain o de rhydd ac rydym yn rhoi enwau Cymraeg iddyn nhw ac mae'r Gymraeg ar ein harwyddion hefyd."

"Mae'r cynnyrch rydyn ni'n ei wneud wedi'i wneud yng Nghymru ac mae'r rhan fwyaf o'r cynhwysion yn dod o Gymru, rwy'n hyrwyddo'r ffaith ein bod yn gwneud yr hufen iâ ein hunain ac yn defnyddio llaeth Cymru."

"Mae labeli ein cynnyrch ar thema Gymreig ac yn ddwyieithog. Mae baner Cymru yn rhan o'r addurn ac mae gennym ddreigiau bach coch fel propiau ar ein stondin pan fo hynny'n bosibl."

"Mae'r cyfan wedi'i labelu â'r ffynhonnell yn dweud o ble mae'r blawd wedi dod ac mae taflenni am y busnes i bobl fynd gyda nhw."


Ymddengys fod llawer o arddangoswyr yn cydnabod y gellid defnyddio brand Cymru fel nod masnach gwerthfawr o ryw fath. Mae'r drafodaeth sydd yn y Cynllun Gweithredu am frand ymbarél Cymreig, y gall busnesau bwyd a diod gysylltu eu brandiau eu hunain ag ef, i'w weld fel petai'n egluro gweithredu'r arddangoswyr yn dda yn hyn o beth. Yn wir, cododd brandio a hysbysebu yn thema allweddol, gyda masnachwyr yn datgan eu bod yn defnyddio themâu Cymreig a'r iaith Gymraeg, tra bod eraill yn cynhyrchu gwybodaeth ychwanegol, megis taflenni, i adrodd hanes y

cynnyrch, neu'n siarad â chwsmeriaid am eu busnes a'r hyn maent yn ei gynhyrchu wrth ei werthu. Cyfeirir yn benodol at ddefnyddio polisi bwyd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y Cynllun Gweithredu (Pwynt Gweithredu 11) ac mae enwau cynnyrch yn cynnig cyfle naturiol i wneud hynny, gan eu bod hefyd yn pwysleisio dilysrwydd y cynnyrch. Er ei fod yn anodd ei fesur, ceir ymdeimlad bod cyfeirio at 'gynnyrch o Gymru' wedi dod yn fwy amlwg yn y sylwadau a wnaed gan arddangoswyr yn y gwerthusiadau dros y tair blynedd diwethaf, yn enwedig o ran cymryd camau penodol sydd â'r bwriad o fanteisio mwy ar darddiad Cymreig y bwyd, megis wrth enwi cynnyrch a dylunio'r deunydd pacio.

Gofynnwyd i arddangoswyr hefyd i ba raddau y câi cynnyrch o Gymru ei hyrwyddo gan y gwyliau bwyd eu hunain (h.y. gan drefnwyr y gwyliau bwyd drwy eu deunyddiau hyrwyddo, ac ati). Dengys Ffigwr 3.10 mai prin yw'r achosion lle teimlai arddangoswyr nad oedd cynnyrch Cymru wedi cael ei hyrwyddo o gwbl. Dywed y Cynllun Gweithredu y dylai digwyddiadau a gefnogir godi proffil bwyd a diod Cymru (Pwynt Gweithredu 36) ac mae tystiolaeth yma bod hyn yn gyffredin ledled y gwyliau bwyd. Gŵyl Llymarch a Chynnyrch Cymreig Môn sgoriodd uchaf ar yr agwedd hon, gyda thua phedwar o bob pump (20/23) o'r ymatebwyr a oedd wedi mynychu'r ŵyl hon yn adrodd fod cynnyrch Cymru yn cael ei hyrwyddo 'i raddau helaeth' ynddi. Unwaith eto, mae'n rhaid dehongli'r ffigyrau hyn yn ofalus, oherwydd gall nifer yr arddangoswyr sydd wedi mynychu unrhyw ddigwyddiad penodol fod yn eithaf bach.

Gellid disgwyl y byddai'r gwyliau bwyd llai o faint yn fwy tebygol o gael ffocws lleol, tra byddai'r gwyliau bwyd mwy o faint efallai yn codi uwchlaw eu hardal leol ac yn hyrwyddo'r syniad o 'gynnyrch Cymru' yn drymach. Mae'r canlyniadau, serch hynny, yn dangos nad yw hyn o reidrwydd yn wir. Er enghraifft, mae'r Fenni a Chonwy yn wyliau bwyd eithaf mawr a dderbyniodd gyllid Haen 3, ac eto yn sicr nid oeddynt yn ddim mwy tebygol o hyrwyddo cynnyrch Cymru na'r gwyliau bwyd eraill llai o faint yng ngolwg yr arddangoswyr. Nid yw hyn i ddweud nad yw gwyliau'r mwy o faint yn hyrwyddo cynnyrch o Gymru – mae'n amlwg iawn eu bod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn cyd-fynd â thema a ddisgrifir yn llawnach ym Mhennod 6, sef bod rhai gwyliau bwyd (yn enwedig gwyliau mwy o faint, ond nid yn llwyr) 'yn seiliedig ar le' (*place-based*) gan eu bod yn arwain datblygiad economaidd a diwylliannol ardaloedd lleol.

Ffigwr 3.10: Yn gyffredinol, pa mor weithredol y câi cynnyrch Cymru ei hyrwyddo ym mhob digwyddiad a fynychwyd gennych?



n = yn amrywio fel y dangosir⁹

⁹ Ni ddangosir gwyliau bwyd lle roedd llai na 20 o ymatebwyr wedi'u mynychu.

3.4 Effaith Gwyliau Bwyd

3.4.1 Ymchwil a datblygu

Fel y dangoswyd yn Ffigwr 3.9, er nad dyma'r ysgogydd pennaf a nodwyd, eto roedd 60 y cant o arddangoswyr yn mynychu gwyliau bwyd gyda bwriad i brofi cynhyrchion a brandiau newydd. I gael gwybod mwy am hyn, gofynnodd arolwg 2015 i arddangoswyr ddisgrifio sut yn union yr oedd eu presenoldeb mewn gwyliau bwyd wedi dylanwadu ar eu busnes o ran y cynnyrch maent yn eu gwerthu, sut maent yn eu gwerthu, a lle maent yn cael eu gwerthu. Mae cefnogi cyfleoedd ar gyfer dysgu, ymchwilio, a datblygu cynnyrch a'r farchnad yn cyd-fynd yn agos â pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector bwyd a diod, fel y gwelir yn y Cynllun Gweithredu (a'i grybwyll ym Mhwyntiau Gweithredu 8, 14, 20, 21 a 31).

Dyweddodd hanner (50 y cant; 124/250) yr holl arddangoswyr fod mynychu gwyliau bwyd wedi dylanwadu ar ddatblygiad eu cynnyrch neu eu prisio. Nid yw'r canlyniad yn gwahaniaethu'n fawr yn ôl maint neu oed y busnes ac mae'r detholiad canlynol o sylwadau yn dangos y ffurfiau amrywiol y gall datblygu cynnyrch ei olygu:

“Mi welais fod yn rhaid i mi amrywio beth ro'n i'n ei werthu mewn digwyddiadau gwahanol mewn llefydd gwahanol gan fod chwaeth yn wahanol ynddynt.”

“Fe wnaethom ddatblygu seidr ffrwythau newydd gan fod y galw yno, rydyn ni wedi newid y pris yn ôl beth y credwn yw'r pris iawn oherwydd adborth gan gwsmeriaid.”

“Rydyn ni'n datblygu cynnyrch newydd – mae cogyddion wedi bod yn dod atom yn gofyn i ni ddatblygu cynnyrch newydd yn benodol ar eu cyfer nhw.”

“Rwy'n hoffi arbrofi gyda datblygu cynnyrch newydd drwy edrych o gwmpas y gwahanol gynhyrchwyr a gweld beth dydyn nhw ddim yn ei werthu a beth allwn i ei wneud.”

“Cynlluniais bethau oedd yn haws i'w trin, yn haws i'w cludo, yn haws i'w gweini, gan ddelio â chwsmeriaid yn gyflymach ac yn hawdd, a datblygu pethau i fod ag oes hirach ar y silff; meddyliais am bopeth roeddwn yn ei bobi a beth bynnag oedd yn fwyaf poblogaidd byddwn yn cynhyrchu mwy ohonynt ac yn newid ac yn ychwanegu blasau newydd.”

“Mae pobl yn gofyn i mi mewn gwyliau bwyd, ‘Ydych chi’n gwneud y math hwn o fara?’ Rwy innau’n dweud, ‘Nac ydw, ond mi fyddaf erbyn y tro nesaf y gwela’ i chi.”

“Roedd gwerthu yn fy ngŵyl gyntaf wedi rhoi syniad i mi o beth y gallaf ei gael am fy nghacennau – fy mod yn gallu eu gwerthu am ychydig yn fwy nag arfer.”

“Rydyn ni’n defnyddio gwyliau bwyd i roi treial ar gynnyrch newydd gyda’r cyhoedd ac rydyn ni’n gweithredu ar unrhyw adborth.”

Dywedodd tua chwarter (26 y cant; 66/250) eu bod wedi newid y ffordd y maent yn gwerthu eu cynnyrch drwy fynychu gwyliau bwyd. I’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr hyn, roedd hyn yn golygu eu bod wedi datblygu eu brandio a’u pecynnu ar gyfer cynnyrch yn ôl yr hyn yr oeddynt wedi’i ddysgu am ddewisiadau cwsmeriaid:

“Rydyn ni wedi cynhyrchu labeli newydd gyda’r Gymraeg arnyn nhw. Mae llawer o bobl yn dweud y byddent yn hoffi gweld enwau Cymraeg ar gynhyrchion Cymreig.”

“Dydyn ni ddim bellach yn gwerthu pethau wedi’u lapio a’u labelu. Maen nhw’n gwerthu’n well wedi’u harddangos yn agored fel ar gownter deli. Mae dod o hyd i ddeunydd pacio yn llai a llai pwysig i gwsmeriaid oherwydd ceisio helpu’r amgylchedd.”

“Rydyn ni’n edrych ar sut rydyn ni’n cyflwyno’r nwyddau – mwy o becynnu ‘stryd’ a sut rydyn ni’n ysgrifennu ein harwyddion, rydyn ni’n fwy ymwybodol o gynrychioli ein brand.”

Unwaith eto, daeth dysgu gwerth hybu ‘cynnyrch o Gymru’ drosodd yn gryf yma, ac i rai arddangoswyr ymddengys bod hyn yn gysylltiedig â thuedd mwy cyffredinol tuag at hyrwyddo *dilysrwydd* eu nwyddau trwy, er enghraifft, gofleidio’r esthetig ‘bwyd stryd’, lle caiff bwyd traddodiadol ei werthu mewn pecynnau traddodiadol.

Dywedodd mwy na thraean (36 y cant; 90/250) yr ymatebwyr eu bod wedi newid *ble* maent yn gwerthu eu cynnyrch o ganlyniad i fynychu gwyliau bwyd. Disgrifiodd yr arddangoswyr hyn sut y mae gwyliau bwyd wedi eu helpu i sefydlu marchnadoedd mewn daearyddiaethau newydd:

“Mae gennym siop ar-lein nawr gan fod pobl yn gofyn drwy’r amser lle gallan nhw brynu ein cynnyrch pan fyddan nhw’n eu prynu mewn gŵyl, felly rydyn ni’n ei anfon i bobl sy’n byw yn Llundain, ac yn y blaen.”

“Fe lwyddon ni i gael ein cynnyrch i ddwy siop yn y Fenni ar ôl gwneud yr ŵyl.”

“Cyfanwerthwr newydd ac maen nhw’n dosbarthu ymhellach i ffwrdd, mae’r mêl yn cael ei werthu ar draws y Sianel, yn mynd i’r gwledydd Benelux ac rydyn ni’n cyflenwi’r llongau mordeithio yn ogystal.”

Yn ogystal â gwneud cysylltiadau newydd a chael cynhyrchion i siopau lleol, sef manteision confensiynol y gellid eu disgwyl o fynychu gŵyl, mae’n arbennig o ddiddorol bod rhai arddangoswyr wedi cael eu hannog i ddatblygu eu presenoldeb ar-lein. Ystyrir yn gyffredinol fod arddangos mewn gwyliau yn ddull gwerthu agos wyneb-yn-wyneb, sydd fel petai’n wahanol i werthu ar-lein. Fodd bynnag, mae’r ddau yn amlwg yn ategu ei gilydd i rai arddangoswyr, gan fod gwerthu ar-lein yn rhoi modd cynnal cyswllt a wnaed gyda chwsmeriaid mewn gŵyl fwyd hyd yn oed pan fydd y cwsmer a’r cynhyrchydd yn ddaearyddol bell o’i gilydd (noder y gallai hyn fod oherwydd fod cynhyrchydd yn mynychu gŵyl y tu hwnt i’w ardal ei hun neu fynychwr gŵyl yn ymwelydd â’r ardal). Gall yr anectodau a ddisgrifir yn y sylwadau hefyd helpu i ddeall sut bod rhai arddangoswyr yn teimlo bod presenoldeb mewn gŵyl yn gyfrifol am lawer o werthiannau anuniongyrchol. Gallai cyflwyniad i gwsmer newydd mewn gŵyl o bosibl arwain at werthu cynnyrch am flynyddoedd i ddod.


3.4.2 Cyllido gwyliau bwyd

Gofynnwyd i arddangoswyr feddwl beth y credent y gellid ei wneud i sicrhau ffynonellau cyllid amgen i wyliau bwyd. Mae hwn yn faes o ddiddordeb arbennig, o ystyried y nod polisi i gael gwyliau bwyd i ddod yn gynaliadwy (gweler Pwynt Gweithredu 36 yn y Cynllun Gweithredu, er enghraifft). Dangosir yr ymatebion i dri awgrym penodol yn Ffigur 3.11 isod.

At ei gilydd, nid oedd arddangoswyr o blaid cyflwyno neu gynyddu prisiau mynediad i ymwelwyr, gyda dim ond 12 y cant yn dweud y dylid ystyried hyn. Roedd cyfran debyg (16 y cant) o'r farn y gellid ystyried cynnydd ym mhrisiau stondinau i arddangoswyr. Dangoswyd mwy o gefnogaeth i'r awgrym o ddenu nawdd ar gyfer y digwyddiadau, gyda 88 y cant yn dweud y dylai hyn gael ei ystyried. Nid yw hyn yn syndod o bosibl, gan y gallai'r ddau opsiwn cyntaf yn ymarferol arwain at ganlyniadau negyddol i'r arddangoswyr eu hunain (o ran nifer llai yn mynychu neu gostau uwch). Serch hynny, yn anecdotaidd, ymddengys bod enghreifftiau sylweddol o noddi digwyddiad yn gyfyngedig yn bennaf i'r gwyliau mwyaf eu maint. Nid yw'n hawdd i wyliau bwyd llai o faint sicrhau nawdd ar sail unigol, ac fe gaiff ei drafod yn llawnach ym Mhennod 5.

Mae'n bosibl mai'r canfyddiad o bwys yma yw amharodrydd arddangoswyr i gyflwyno prisiau mynediad i ymwelwyr (byddai'n well gan arddangoswyr dalu mwy eu hunain), sy'n tanlinellu pwysigrwydd canfyddedig o gael eu gweld gan gynulleidfa mor eang â phosibl. Fel y trafodwyd, mae'r rhan fwyaf o arddangoswyr yn mynychu gwyliau i werthu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ac, felly, mae denu cynifer o bobl â phosibl i'r gwyliau bwyd yn bwysig iawn i arddangoswyr.

Ffigwr 3.11: Gan feddwl am y manteision a ddaw i'ch busnes wrth fynychu gwyliau bwyd, pa un o'r opsiynau canlynol ydych chi'n meddwl y dylid eu hystyried ar gyfer y dyfodol?



3.5 Crynodeb

Roedd dros 900 o fusnesau unigryw wedi arddangos yn y gwyliau bwyd a gafodd gyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Roedd dros dri chwarter yr arddangoswyr wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn dueddol o ddod o ardaloedd awdurdodau lleol gwledig, er nad yn gyfan gwbl felly. Micro-fusnesau oedd y busnesau yn bennaf a bron i draean ohonynt heb fod yn masnachu eto am dair blynedd. Er bod lleiafrif o arddangoswyr yn cylchdeithio o wyl fwyd i wyl fwyd, roedd y mwyafrif yn mynychu un wyl fwyd yn unig, er bod hyn fel rheol yn un o nifer o ffeiriau a digwyddiadau yr oedd y busnes yn arddangos ynddynt yn ystod y flwyddyn. Er bod y rhan fwyaf o fusnesau yn aml yn arddangos mewn gwyliau bwyd er mwyn gwerthu'n uniongyrchol, roedd 9 o bob 10 hefyd yn arddangos at ddibenion marchnata, tra bod 60 y cant hefyd yn mynychu at ddibenion ymchwil a datblygu. Roedd 8 o bob 10 arddangoswr yn dweud eu bod yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo cynnyrch o Gymru ac yn teimlo bod y gwyliau bwyd eu hunain yn gyffredinol yn gwneud yr un peth, er bod rhywfaint o amrywiaeth ddiddorol bosibl yma. Yn anecdotaidd, disgrifiai arddangoswyr sut y gellid defnyddio enwau Cymraeg/Cymreig a phecynnu dilys i fanteisio i'r eithaf ar y brand 'cynnyrch Cymru'. Mae canfod cwsmeriaid newydd a chael eu gweld gan gynulleidfa mor eang ag y bo modd yn bwysig i arddangoswyr ac maent ran amlaf o lawer yn erbyn gwyliau/digwyddiadau yn codi tâl mynediad (uwch) ar fynychwyr.

4 Mynychwyr Gwyliau Bwyd

Mae'r adran hon yn adolygu'r ymatebion i arolwg wyneb-yn-wyneb â mynychwyr chwe gŵyl fwyd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bennod hon yn trafod dalgylchoedd y gwyliau bwyd, y cymhellant i fynychwyr i fynd i'r digwyddiadau, beth oedd eu barn am wahanol elfennau o'u profiad, ac a ydynt yn bwriadu mynychu y flwyddyn nesaf ai peidio. Daw'r bennod i ben drwy edrych ar faint o arian y mae'r mynychwyr yn ei wario yn y gwyliau bwyd, a faint o amser y maent yn ei dreulio ynddynt.

Crynodeb

- Holwyd cyfanswm o 909 o fynychwyr ledled y chwe gŵyl yr aeth y tîm ymchwil iddynt
- Mae gwahaniaeth mawr ym maint dalgylch y gwyliau bwyd gwahanol
- Y rheswm a roddwyd amlaf am fynychu gwyliau bwyd yw er mwyn prynu cynnyrch lleol
- I rai gwyliau bwyd enw da'r digwyddiad yw'r ffactor denu pwysicaf, tra bo eraill yn manteisio ar eu lleoliad yn agos at ganolfannau poblogaeth mawr neu gyrchfannau i dwristiaid
- Câi digwyddiadau y clod uchaf yn gyffredinol am y cludfwyd neu fwyd tecawê oedd ar gael ac am amrywiaeth y bwyd a diod oedd ynddynt
- Nid yw'r lefelau mwynhad a adroddwyd bob amser yn ddigonol i egluro a yw mynychwyr yn bwriadu dychwelyd y flwyddyn nesaf ai peidio
- Mae'n bosibl fod gwyliau bwyd sy'n para mwy na diwrnod yn elwa o gael mynychwyr yn aros ynddynt yn hirach, ond nid yw hyn bob amser yn wir
- Y gwariant cyfartalog fesul oedolyn yw £24.74 ledled y chwe gŵyl yr ymchwiliwyd iddynt
- Ond mae'r gwariant yn amrywio'n sylweddol ymysg y gwyliau bwyd gwahanol, ac yn gysylltiedig agos â pha mor hir y mae mynychwyr yn aros mewn gŵyl
- Cred mynychwyr yn gryf fod tarddiad bwyd yn bwysig, er nad ydynt yn cael y cyfle bob amser i brynu bwyd o Gymru yn eu siopa arferol


4.1 Cyflwyniad

Roedd y detholiad o wyliau bwyd yr aeth yr ymchwilyr iddynt yn ymdrech i geisio rhoi amrywiaeth ddefnyddiol o ran daearyddiaeth a maint, ond ni fydd y chwe gŵyl yr ymwelwyd â hwy yn cynrychioli'r sector yn gyflawn. Holwyd cyfanswm o 909 o fynychwyr ac yn Nhabl 4.1 isod ceir crynodeb byr o'r chwe gŵyl, ynghyd â map i ddilyn sy'n dangos eu lleoliad:

Tabl 4.1: Crynodeb o'r gwyliau bwyd lle cynhaliwyd yr arolwg mynychwyr

Gŵyl	Dyddiad	Nifer amcangyfrifedig yr ymwelwyr	Maint y sampl
Gŵyl Fwyd y Fenni	18-20 Medi 2015	30,000	150
Gŵyl Fwyd Sain Ffagan	5-6 Medi 2015	26,000	155
Gŵyl Fwyd Conwy	24-25 Hydref 2015	25,000	151
Gŵyl Fwyd Biwmares	12-13 Medi 2015	15,000	152
Gŵyl Fwyd Casnewydd	3 Hydref 2015	13,000	151
Gŵyl Fwyd Arberth	26-27 Medi 2015	7,500	150

Ffigwr 4.1: Map yn dangos lleoliadau'r gwyliau bwyd lle cynhaliwyd yr arolwg mynychwyr



Allwedd	
A	Y Fenni
B	Biwmares
C	Conwy
D	Arberth
E	Casnewydd
F	Sain Ffagan


I gategoreiddio'r fras, gellid dweud bod yr arolwg yn cwmpasu tri digwyddiad mwy o faint (sef yn y Fenni, Sain Ffagan, a Chonwy) a thri digwyddiad llai o faint (sef yn Arberth, Casnewydd, a Biwmares). Fodd bynnag, mae nifer yr ymwelwyr a adroddwyd yn Sain Ffagan yn rhannol o ganlyniad i'r atyniadau treftadaeth yn y cyffiniau, ac efallai yn rhoi darlun chwyddedig braidd o faint yr ŵyl fwyd ei hun.

Yn ddamcaniaethol mae Conwy (ar arfordir y gogledd) a Biwmares (ar Ynys Môn) mewn lleoliad da i elwa ar dwristiaeth, o ystyried poblogrwydd y rhanbarth hwnnw ymysg ymwelwyr o ogledd-orllewin Lloegr. Er ei fod mewn lleoliad ychydig yn wahanol, mae'r Fenni, oherwydd ei agosrwydd at ffin Lloegr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, o bosibl yn elwa o (ac yn cyfrannu at) dwristiaeth yn yr un modd. Mae Casnewydd a Sain Ffagan (Caerdydd) yn wyliau bwyd mewn dinas, y disgwylir iddynt dynnu yn bennaf o'r boblogaeth leol, tra bod Arberth wedyn yn dref fechan yn Sir Benfro.

4.2 Proffil y Mynychwyr/Ymwelwyr


Oedran cyfartalog ymatebwyr yr arolwg oedd 45 mlwydd oed. Conwy oedd â'r grŵp ieuengaf o ymatebwyr i'r arolwg, gydag oedran cyfartalog o 41, tra bod y grŵp ymatebwyr hynaf yn Arberth, gydag oedran cyfartalog o 48. Yn dilyn hynny, roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr o Arberth wedi ymddeol (27 y cant) nag ar draws y sampl cyfan (18 y cant).

Ffigwr 4.2: Oedran cyfartalog yr ymatebwyr



Roedd mwy o ymatebwyr yr arolwg yn fenywod nag yn ddynion, gyda'r anghydbwysedd hwn i'w weld yn bennaf yn Arberth, lle roedd 71 y cant o'r ymatebwyr yn fenywod. Conwy oedd â'r cydbwysedd mwyaf cyfartal rhwng rhywiau'r mynychwyr, lle roedd 48 y cant o'r ymatebwyr yn ddynion. O ran ethnigrwydd, roedd y sampl yn 97 y cant yn Wyn, a hynny'n eithaf cyson ledled y chwe gŵyl; yn Arberth, roedd 99 y cant o'r ymatebwyr yn Wyn, tra mai'r ffigur yng Nghasnewydd oedd 95 y cant.

Ffigwr 4.3: Cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith yr ymatebwyr




Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a oeddynt yn byw yn lleol (o fewn pum milltir), yn byw yn y sir, yn ymweld â'r ardal o rywle arall yng Nghymru neu'n ymweld o tu allan i Gymru. Ymddengys bod amrywiad mawr yma, gan fod 62 y cant o'r ymwelwyr i Wyl Casnewydd yn ystyried eu hunain i fod yn lleol (o'i gymharu â dim ond 14 y cant yng Nghonwy a 17 y cant yn y Fenni). Mae'r gwahaniaeth hwn yn ddiamheuol, yn bennaf o ganlyniad i'r lleoliadau; disgwylir i wyliau bwyd ger canolfannau poblogaeth mawr a dwys ddenu mwy o ymwelwyr sy'n ystyried eu hunain yn 'lleol'. Yn yr un modd, nid oes fawr o syndod fod Biwmares yn denu'r rhan fwyaf o ymwelwyr o'r tu allan i Gymru (43 y cant), o ystyried poblogrwydd Ynys Môn fel cyrchfan gwyliau byr o ogledd-orllewin Lloegr.

Tabl 4.2: Tarddiad ymwelwyr yn ôl gŵyl

Gŵyl	Byw yn lleol	Byw yn y sir	Byw yng Nghymru ond y tu allan i'r sir	Ymweld â Chymru
Y Fenni	17%	15%	41%	27%
Conwy	14%	32%	23%	32%
Biwmares	28%	18%	11%	43%
Arberth	23%	30%	37%	10%
Casnewydd	62%	22%	11%	6%
Sain Ffagan	31%	16%	44%	9%
Cyfanswm	29%	22%	28%	21%

Gofynnwyd i fynychwyr y gwyliau bwyd ai dyma eu hymweliad cyntaf â gŵyl fwyd yng Nghymru; ar draws pob un o'r gwyliau bwyd yn yr arolwg, roedd 70 y cant, yn gyfan gwbl, wedi mynychu gŵyl fwyd o'r blaen, yr un fath ag yn 2014 (er bod y gymysgedd o wyliau bwyd yr aeth yr ymchwilwyr iddynt yn wahanol). Biwmares oedd mwyaf tebygol o ddenu mynychwyr am y tro cyntaf (47 y cant), sydd efallai oherwydd cyfran uchel y mynychwyr oedd yn ymwelwyr i Gymru, tra mai Arberth oedd â'r gyfran isaf o ymwelwyr am y tro cyntaf i ŵyl fwyd yng Nghymru (20 y cant), sydd i'w ddehongli yn rhannol o bosibl oherwydd ei leoliad yn y de-orllewin pell a chyfran gymharol isel yr ymwelwyr o'r tu allan i Gymru.


Ffigwr 4.4: Cyfran yr ymatebwyr yn mynychu gŵyl fwyd yng Nghymru am y tro cyntaf yn ôl tarddiad yr ymwelwyr



4.2.1 Ymwbyddiaeth o wyliau bwyd a'r atyniad i fynd iddynt


Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr sut yr oeddynt wedi dod i wybod am yr ŵyl fwyd yr oeddynt ynddi. Mae Ffigwr 4.5 yn dangos mai ei mynychu yn y gorffennol oedd y ffactor pwysicaf. Fel y dangosir yn Ffigwr 4.5, roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am yr ŵyl oherwydd eu bod wedi bod ynddi o'r blaen yn amrywio'n fawr rhwng y gwahanol wyliau bwyd, gan amrywio o 54 y cant yn y Fenni i ddim ond 17 y cant ym Miwmares. Mae hyn yn helpu i roi gwell dealltwriaeth o natur wahanol y gwahanol wyliau. Byddai disgwyl i Biwmares fod â chyfran isel o fynychwyr sydd wedi mynychu o'r blaen, gan fod 43 y cant o'i hymwelwyr yn dod o tu allan i Gymru a dim ond yn ei hail flwyddyn oedd yr ŵyl. Conwy a'r Fenni oedd â'r cyfrannau uchaf o fynychwyr a oedd wedi bod o'r blaen, er bod ganddynt hwythau gyfrannau cymharol uchel o ymwelwyr o'r tu allan i'r wlad. Awgryma hyn o bosibl fod gwyliau bwyd yn y Fenni, Conwy ac, i raddau llai, Arberth yn fwy tebygol o fod yn gyrchfannau yn eu rhinwedd eu hunain nag yw'r ŵyl fwyd yn Sain Ffagan, ac efallai Biwmares, sydd, yn hytrach, yn manteisio o bosibl ar apêl gyffredinol eu hardal.

Ffigwr 4.5: Sut daethoch chi i glywed am yr ŵyl fwyd?



n=909


Ffigwr 4.6: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am yr ŵyl drwy ei mynychu o'r blaen, yn ôl gŵyl



Gofynnwyd wedyn i fynychwyr pa dri ffactor (o restr ohonynt) a oedd wedi dylanwadu fwyaf ar eu penderfyniad i fynychu'r ŵyl fwyd. Y cyfle i brynu bwyd a diod lleol oedd, yn gyffredinol, y ffactor mwyaf poblogaidd, megis yn 2014. Nododd ychydig dros 60 y cant o'r rhai a holwyd hyn fel y prif reswm dros fynychu – mae'r ffigwr hwn yn weddol gyson ledled y gwyliau bwyd gwahanol. Er gwaethaf hyn, nid y cyfle i brynu cynnyrch lleol oedd y rheswm pennaf a roddwyd amlaf dros fynychu yn y Fenni a Chonwy; yn hytrach, enw da'r digwyddiad oedd y brif atynfa, gyda 67 y cant a 62 y cant, yn y drefn honno, yn nodi hwn fel ffactor allweddol. Mae hyn unwaith eto fel petai'n dynodi'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddigwyddiad eithaf mawr hyn fel cyrchfannau ynddynt eu hunain, yn gallu denu ymwelwyr yn seiliedig ar eu henw da.

Ar y llaw arall, disgrifiodd 59 y cant o'r rhai a fynychodd ŵyl Biwmares y 'lleoliad' fel ffactor hollbwysig, gan gyd-fynd â'r syniad bod yr ŵyl yn elwa ar ymwelwyr i'r ardal, tra bod 64 y cant o'r ymwelwyr i ŵyl Casnewydd wedi mynychu yn rhannol oherwydd eu bod yn lleol, gan danlinellu'r syniad bod digwyddiadau dinesig o'r fath yn bennaf yn gwasanaethu trigolion lleol fel rhan o galendr diwylliannol y ddinas. Mae Sain Ffagan, mewn rhai ffyrdd, wedi'i gosod rhwng y ddau, gan elwa ar ei lleoliad agos at Gaerdydd ond hefyd ei lleoliad mewn canolfan ddiwylliannol (ger amgueddfa genedlaethol), a all dynnu ar gefnwlad de Cymru o gwmpas y brifddinas.

Ffigwr 4.7: Pa dri ffactor a ddylanwadodd fwyaf ar eich dewis i ddod i'r wyl hon?




n=909

Adborth am yr Ŵyl

Gofynnwyd i fynychwyr roi eu barn am amryw o elfennau yn yr ŵyl fwyd yr oeddynt ynddi. Mae Ffigwr 4.8 yn manylu am gyfran y mynychwyr a ddisgrifiodd pob elfen yn dda neu'n rhagorol. Mae'r ymatebion yn dangos bodddhad cyffredinol uchel ag ansawdd y gwyliau, gyda chlod arbennig o uchel am ehangder y profiad, amrywiaeth y bwyd a diod, argaeledd bwyd tecawê ar y safle, y staff, a gosodiad y lleoliad a stondinau. Cafwyd adborth llai cadarnhaol ar fannau eistedd a chyfleusterau i blant. Mae'r canfyddiadau hyn fwy neu lai'n gyson ag adborth y blynyddoedd blaenorol.

Ffigwr 4.8: Cyfran y mynychwyr yn graddio elfennau'r gwyliau bwyd yn "rhagorol" neu'n "dda"




n = yn amrywio o 186 i 904 (ni chafodd y rhai a atebodd "methu ateb" eu cynnwys yn y cyfrifiadau)

Roedd rhywfaint o amrywiad yn y sgoriau yn erbyn y meini prawf o un wyl i'r llall. Yn nodedig, cafodd Sain Ffagan sgoriau anarferol o uchel am yr hyn sydd fel rheol yn ddwy elfen sy'n achosi'r mwyaf o broblemau i wyliau bwyd: sef cyfleusterau plant (95 y cant yn dda neu'n rhagorol) a manau eistedd (67 y cant yn dda neu'n rhagorol). Mynychwyr Gŵyl Fwyd Conwy oedd yn fwyaf tebygol o ddweud bod y wybodaeth am safle'r wyl yn dda neu'n rhagorol (92 y cant). Mae dadansoddiad o foddhad mynychwyr yn ôl yr elfennau gwahanol ym mhob un o'r chwe gŵyl wedi'i gynnwys yn yr Atodiad. Mewn rhai achosion, gall cymharu rhwng gwyliau o wahanol fathau a meintiau fod yn broblem. Mae disgwyliadau'r mynychwyr o'r digwyddiad yn debygol o ddylanwadu'n gryf ar eu hatebion. Er enghraifft, er bod y Fenni (97 y cant) a Chonwy (95 y cant) yn sgorio'n uchel ar amrywiaeth y gweithgareddau oedd ar gael, mae'n debygol fod y mynychwyr hefyd yn disgwyl rychwant da o weithgareddau yn

y digwyddiadau mwy o faint hyn. Yn wir, mae eu rhaglenni yn hysbysebu arlwy adloniant eang iawn. Mae'n anodd, felly, cymharu'r ffigyrau hyn yn uniongyrchol gyda'r 91 y cant o fynychwyr a oedd o'r farn fod Casnewydd yn cynnig ystod dda o weithgareddau a'r 98 y cant a wnaeth hynny yn Arberth, o gofio y gall mynychwyr y gwyliau bwyd hyn fod â disgwyliadau gwahanol iawn. Fodd bynnag, gellid awgrymu'n rhesymol fod Arberth wedi rhagori ar amrywiaeth y gweithgareddau a ddisgwylir gan wyl o'r maint hwnnw.

Mae Ffigwr 4.9 yn dangos lefelau cyffredinol y mwynhad a adroddwyd am bob gwyl yn erbyn pa mor debygol y dywedodd y mynychwyr eu bod am ddychwelyd y flwyddyn nesaf. Mae'n amlwg nad yw'r lefelau mwynhad a adroddwyd bob amser yn ddigonol i egluro a yw mynychwyr yn bwriadu dychwelyd y flwyddyn nesaf ai peidio. I wyl sy'n denu cyfran uchel o bobl leol, mae disgwyl i'r lefel mwynhad a'r bwriad i ddychwelyd fod yn eithaf tebyg, gan nad oes llawer o rwystrau i atal mynychwyr rhag dod yn ôl y flwyddyn nesaf, a gwelir hyn yn arbennig yn achos Casnewydd. I ymwelwyr sy'n byw ymhellach i ffwrdd, mae ffactorau eraill yn debygol o ddylanwadu ar eu penderfyniad i ddod eto y flwyddyn nesaf, yn ychwanegol at y ffactor a ydynt wedi mwynhau'r wyl ai peidio, megis a fyddant yn ymweld â'r rhan honno o'r wlad eto'r flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, ymddengys bod y Fenni yn gwrthdroi'r duedd hon, gan ei bod yn denu ymwelwyr o ddalgylch eang yn ogystal â bod â chyfran uchel o fynychwyr sydd yn bwriadu dychwelyd ar ôl mwynhau'r digwyddiad. Mae hyn i'w weld yn cyd-fynd â'r syniad, fel gwyl fawr, fod y Fenni yn ei hanfod yn gyrchfan yn ei rhinwedd ei hun i'r graddau fod ymwelwyr yn gwneud cynlluniau penodol i'w mynychu, ac felly nid yw ei mynychu mor ddibynnol ar ffactorau amodol. Yn hyn o beth, mae yma wahaniaeth diddorol â Chonwy, sy'n rhannu nodweddion penodol gyda'r Fenni ond nad yw efallai wedi datblygu gymaint i sefydlu ei hun fel gyrchfan yn ei rhinwedd ei hun sy'n gallu mynd y tu hwnt i ffactorau amodol megis a yw ymwelwyr yn bwriadu bod yn yr ardal y flwyddyn nesaf ai peidio (sydd efallai yn egluro'r gwahaniaeth rhwng cyfran y bobl sydd wedi mwynhau Gwyl Fwyd Conwy (97 y cant) a'r rhai sy'n bwriadu dychwelyd (67 y cant) i'r wyl).


Ffigwr 4.9: Sut ydych chi'n mwynhau'r wyl (y canran sydd 'wir yn mwynhau'), a pha mor debygol ydych chi o fynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiadau yn yr wyl fwyd y flwyddyn nesaf (canran sy'n 'sigr o wneud')?



4.2.2 Pa mor hir yr arhosir yn yr wyl

Gofynnwyd i fynychwyr pa mor hir yr oeddynt yn bwriadu ei dreulio yn yr wyl fwyd. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr fel rheol yn mynychu gŵyl fwyd am ran o'r diwrnod, er bod rhai gwahaniaethau gwerth sylwi arnynt rhwng y gwyliau bwyd gwahanol. Mae'r canlyniadau yn rhannol ddibynnol ar hyd y digwyddiadau. Mae'r Fenni yn wyl sy'n para tridiau, Casnewydd ond yn wyl undydd, a'r gweddill yn para deuddydd. Mae gan y digwyddiadau oriau gweithredu gwahanol ar bob dydd hefyd. Serch hynny, er eu bod ar agor am ddeuddydd, ychydig iawn o ymwelwyr i wyl Biwmares a gŵyl Sain Ffagan oedd am fynychu mwy nag un diwrnod (o'i gymharu â'r Fenni a Chonwy). Gallai hyn fod, i ryw raddau, yn arwydd o ddyfnder yr arlwy i gwsmeriaid yn y gwyliau bwyd gwahanol.

Ffigwr 4.10: Pa mor hir ydych chi'n bwriadu ei dreulio yn yr ŵyl fwyd?



4.2.3 Gwariant cyfartalog fesul mynychwr i ŵyl fwyd

Gofynnwyd i fynychwyr faint yr oeddynt yn bwriadu ei wario yn yr ŵyl. Mae Tabl 4.3 yn dangos y gwariant cyfartalog fesul oedolyn ym mhob un o'r gwyliau bwyd yr ymwelwyd â hwy. Mae amrywiaeth fawr yng ngwariant cyfartalog mynychwyr o un ŵyl i'r llall, gyda mynychwyr Sain Ffagan yn bwriadu gwario, ar gyfartaledd, tua £18 yr un, a hynny'n codi i tua £35 i fynychwyr gŵyl y Fenni. Ymddengys fod y canlyniadau yn gysylltiedig agos â'r amser y mae mynychwyr fel arfer yn treulio ym mhob gŵyl.


Tabl 4.3: Gwariant cyfartalog fesul mynychwr (oedolyn)

Gŵyl	Gwariant ar gyfartaledd
Y Fenni	£35.48
Conwy	£33.61
Biwmares	£21.54
Arberth	£21.13
Casnewydd	£19.34
Sain Ffagan	£17.54
Y cyfan	£24.74

4.3 Agweddau Mynychwyr Gwyliau Bwyd

Gofynnwyd i fynychwyr ystyried a yw mynychu gwyliau bwyd wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol ai peidio. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Bwynt Gweithredu 36 yn y Cynllun Gweithredu, sy'n cyfiawnhau cymorth grant i weithgaredd sy'n codi proffil diwydiant bwyd a diod Cymru. Fel y dangosir yn Ffigwr 4.11, nid oedd llawer o amrywiaeth yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar draws y gwahanol ddigwyddiadau, gyda thua dau o bob tri o'r mynychwyr yn teimlo bod eu hymwybyddiaeth yn sicr wedi cynyddu (sydd hefyd yn debyg iawn i ganlyniadau 2014 o gasgliad gwahanol o wyliau bwyd).

Ffigwr 4.11: A yw mynychu'r wyl fwyd yn cynyddu, neu a yw wedi cynyddu, eich ymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol? (yn ôl gŵyl fwyd)




Yna gofynnwyd i fynychwyr feddwl i ba raddau yr oeddynt yn cytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â bwyd a diod Cymru. Cytunodd mwy na naw o bob 10 o ymatebwyr y byddent yn prynu bwyd o Gymru petai'r pris yn iawn, gyda dau draean (66 y cant) yn adrodd eu bod yn prynu bwyd o Gymru pryd bynnag y gallant. Dywedodd llai o ymatebwyr (57 y cant) eu bod yn gallu cael gafael hawdd ar fwyd o Gymru yn y manau lle maent yn siopa. Mae hyn yn arbennig o wir am fynychwyr Biwmares, lle teimlai ond 49 y cant eu bod yn gallu dod o hyd i fwyd o Gymru yn eu man siopa, a hynny mae'n siŵr oherwydd cyfran uchel y twristiaid nad ydynt yn dod o Gymru sy'n mynychu'r wyl honno. I'r gwrthwyneb, teimlai 65 y cant o fynychwyr

Arberth, sydd â chyfran llawer uwch o fynychwyr sy'n byw yng Nghymru, y gallent yn hawdd gael cynnyrch o Gymru wrth wneud eu siopa arferol. Mae'r canlyniadau fel petaent yn awgrymu y gallai gwella'r gallu i gael gafael ar fwyd o Gymru chwarae rhan wrth ddatblygu'r sector (gan gysylltu â Phwynt Gweithredu 45 yn y Cynllun Gweithredu).

Dengys yr ymatebion fod y rhan fwyaf o fynychwyr gwyliau bwyd yn ystyried tarddiad y cynnyrch maent yn ei brynu, gyda dim ond 10 y cant yn cytuno â'r datganiad canlynol: "NID yw tarddiad bwyd yn bwysig i mi pan fyddaf yn siopa". Mae hyn yn sicr yn ganlyniad pendant, er na ellir ei gymryd i gynrychioli'r boblogaeth yn gyffredinol – mae gwyliau bwyd yn ddiau yn denu mynychwyr sydd â diddordeb mewn bwyd lleol ac yna yn ôl pob tebyg yn atgyfnerthu hynny drwy eu gweithgareddau. Serch hynny, ymddengys bod gwyliau bwyd, o fewn eu niche, yn gweithredu mewn amgylchedd diwylliannol ffafriol sy'n cydnabod ac yn sympathetig i'w hamcanion.

Ffigwr 4.12: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? (canran sy'n Cytuno/Cytuno'n gryf)



Crynodeb

I grynhoi, gall maint dalgylch gŵyl fwyd amrywio'n sylweddol rhwng digwyddiadau sy'n denu torf leol yn bennaf a'r rheini sydd ag ymwelwyr o bob rhan o Gymru, Lloegr a thu hwnt. Er bod rhai gwyliau bwyd fel petaent yn gallu denu ymwelwyr yn seiliedig ar gryfder eu henw da, mae eraill yn elwa'n bennaf ar eu hagosrwydd at ganolfannau trefol mawr neu leoliadau twristaidd, ac yn manteisio ar hynny. Fodd bynnag, i bob gŵyl fwyd, mae pwysigrwydd cynnyrch lleol yn dal i fod yn allweddol i ddenu mynychwyr yn ogystal ag yn allweddol i brofiad yr ymwelydd. Mae teyrngarwch mynychwyr i ddychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn i'w weld yn amrywio'n fawr rhwng y gwyliau bwyd gwahanol, ac nid yw lefel mwynhad y mynychwyr yn ddigonol i egluro hyn. Yn hytrach, ymddengys fod y graddau y mae'r sylfaen cwsmeriaid yn un dros dro, o ran eu bod yn pasio drwy'r ardal yn hytrach nag yn byw yno yn barhaol, yn rhwystr pwysig i ymweld eto, er bod hyn yn rhywbeth y mae'r gwyliau bwyd mwy o faint yn gallu ei oresgyn yn rhannol drwy sefydlu eu hunain fel cyrchfan yn eu rhinwedd eu hunain. Mae gwariant cyfartalog oedolyn mewn gwyliau bwyd yn llai na £25, er bod hyn yn fwy tebygol o fod tua £20 o ran y digwyddiadau hynny sy'n methu ag annog cyfran o'u mynychwyr i ddychwelyd am ail ddiwrnod. Mae mynychwyr y gwyliau bwyd yn gyffredinol yn cytuno bod bwyd lleol yn bwysig ac yn teimlo bod mynychu gŵyl fwyd yn cynyddu eu gwybodaeth.

5 Tueddiadau yn y Sector

Mae'r bennod hon yn trafod rhai o'r tueddiadau sydd fel petaent yn dod i'r amlwg yn y sector. Ar sail cyfweiliadau â threfnwyr gwyliau bwyd a phrofiad o gynnal gwerthusiadau gwyliau bwyd dros y tair blynedd diwethaf, mae'r bennod yn datblygu ac yn cynnig naratif ar rai o'r canfyddiadau a gyflwynwyd eisoes yn yr adroddiad. Mae hefyd yn trafod y posibilïadau a'r rhwystrau i gydweithio rhwng trefnwyr digwyddiadau, gan gyfeirio'n benodol at yr heriau wrth ffurfio Cymdeithas Gwyliau Bwyd Cymru.

Crynodeb

- Mae rhai gwyliau/digwyddiadau yn ehangu eu harlwy i feysydd nad ydynt yn gysylltiedig â bwyd ac felly o bosibl yn cydgysylltu ag amryw o faterion, gan gynnwys datblygu economaidd lleol, hyrwyddo diwylliant lleol a thwristiaeth
- Mewn cyferbyniad, mae gwyliau/digwyddiadau eraill yn gweithredu'n fwy syml fel llwyfan i gynhyrchwyr lleol
- Mae ymdrechion i ffurfio Cymdeithas Gwyliau Bwyd wedi'u gohirio oherwydd diffyg capasiti gweinyddol, dymuniad rhai gwyliau i gadw eu hannibyniaeth, a chyfeiriadau strategol wahanol y digwyddiadau
- Mae'n bosibl fod potensial ar gyfer mwy o gydweithredu rhwng grwpiau o wyliau bwyd ar faterion penodol, er ei bod yn debygol bellach fod angen trydydd parti i hwyluso hyn

5.1 Gwyliau Bwyd sy'n 'seiliedig ar le'

Mae gwahaniaeth mawr rhwng meintiau'r gwyliau bwyd a gefnogir, gyda nifer yr ymwelwyr yn amrywio o 2,500 i lawer mwy nag 20,000 a gyda nifer yr arddangoswyr yn amrywio o 30 i 130. Yn anochel mae amrywiaeth ym meintiau'r gwyliau bwyd a'u gwasgariad daearyddol yn creu gwahaniaeth mawr rhwng digwyddiadau. Byddai cyffredinoli neu gategoreiddio gwyliau bwyd felly bob amser yn orsymleiddio. Serch hynny, mae thema wedi codi o ganlyniadau'r arolwg, ac a gydnabyddir yn y cyfweiliadau â threfnwyr y gwyliau bwyd, sydd fel petai'n egluro rhywfaint ar yr amrywiaeth ymysg y gwyliau bwyd. Yn ddeuol, gellir gweld hyn fel gwahaniaeth

rhwng gwyliau bwyd sy'n canolbwyntio'n llym ar arddangos cynhyrchwyr lleol a'r rheiny sy'n mabwysiadu cylch gwaith ehangach, lle mae cynnyrch lleol yn chwarae rôl. Mewn gwirionedd, wrth gwrs, mae gwyliau bwyd yn sefyll ar wahanol bwyntiau ar y continwwm hwn.

Ar un pen y continwwm hwn ceir gwyliau/digwyddiadau sydd wedi dechrau arallgyfeirio eu harlwy nes bod bwyd, er yn dal yn ganolog i'r digwyddiadau, yn cael ei ategu gan amrywiaeth o weithgareddau eraill sy'n gallu golygu rôl amlycach i'r celfyddydau, crefftau a pherfformwyr. Wrth wneud hynny, mae'r digwyddiadau hyn yn gallu cynnig profiad adloniant mwy cyflawn yn y gobaith y bydd ymwelwyr yn aros yn hirach a hyd yn oed yn mynychu ar fwy nag un diwrnod. Er enghraifft, mae rhai digwyddiadau yn awr yn aros ar agor yn hwyrach yn y nos ac mae ganddynt ardaloedd wedi eu trwyddedu ger perfformiadau cerddorol. Yn y ffyrdd hyn, mae'r ffin rhwng 'gŵyl fwyd' a gŵyl sydd ag elfen bwyd yn mynd yn aneglur, er bod bwyd yn parhau i fod â rhan ganolog.

Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu amcanion rhai o'r digwyddiadau i fod â mwy o rôl yn cefnogi bywyd economaidd a diwylliannol eu hardal leol yn gyffredinol, yn hytrach na dim ond cynrychioli buddiannau cynhyrchwyr bwyd lleol. Gellid efallai ystyried digwyddiadau o'r fath fel gwyliau bwyd sy'n 'seiliedig ar le' yn rhinwedd y ffordd y maent yn hybu buddiannau ehangach yr ardal. Er enghraifft, efallai y bydd rhai gwyliau bwyd (yn fwy nag eraill) yn bwrpasol yn ceisio denu twristiaid drwy hyrwyddo'r digwyddiad tu allan i'r ardal leol. Byddai'r Fenni yn enghraifft o hyn (gyda Chonwy ar daith debyg), ond nid yw'r dull hwn yn unigryw i wyliau bwyd mawr iawn. Yn hytrach, maint yr ŵyl mewn perthynas â'i hardal leol a allai ddylanwadu ar ehangder ei huchelgais. Er enghraifft, mae Arberth yn arddangos rhai o'r un nodweddion â'r Fenni o ran ceisio arallgyfeirio ei harlwy ac annog teyrngarwch ymwelwyr.

Gwrthgyferbyniad i'r ymagwedd hon, ar ben arall y continwwm, yw digwyddiadau sydd yn fwy syml yn anelu at arddangos bwyd lleol i boblogaethau cyfagos. Gellid ystyried digwyddiadau o'r fath i fod yn 'seiliedig ar fwyd' o ran eu bod yn cydymffurfio yn agosach â'r hyn y gellid ei ystyried yn ŵyl fwyd draddodiadol, wedi'i threfnu o amgylch grŵp craidd o gynhyrchwyr lleol a'i hategu gan fasnachwyr eraill sy'n cynnig

melysion neu ddiodydd poeth, a rhywfaint o ddarpariaeth gwasanaeth sylfaenol wedi'i ddarparu gan drefnwyr yr ŵyl. Er y byddai disgwyl i hyn ddisgrifio llawer o'r gwyliau bwyd llai o faint, eto gellid dadlau fod rhai o'r gwyliau bwyd sydd â nifer cymharol uchel o ymwelwyr, megis Biwmares a Sain Ffagan, hefyd yn cydymffurfio â'r model traddodiadol hwn, o ran eu bod yn bennaf yn dod â bwyd lleol i farchnad drefol neu dwristaidd sy'n bodoli eisoes. Gall y gwyliau bwyd hyn fod yn llai llwyddiannus wrth ddenu ymwelwyr i'r ardal neu wrth ysgogi datblygu economaidd, gan nad ydynt yn 'gyrchfannau' ynddynt eu hunain, ond gallant fod yr un mor llwyddiannus o ran eu cylch gorchwyl eu hunain, gan eu bod yn llwyddo i hyrwyddo cynnyrch lleol. Ar y llaw arall, mae gwyliau bwyd sy'n 'seiliedig ar le' hefyd yn hybu bwyd o Gymru, ond mae'n ddisgrifiad digon da i ddisgrifio ehangder eu huchelgais.

Mae gwyliau bwyd sy'n 'seiliedig ar le' yn awgrymu bod angen dull integredig i gefnogi'r ddarpariaeth. Mae'n atgyfnerthu'r pwynt a wnaed ym Mhennod 2 y gall cyfraniadau rhai gwyliau gyfrannu ar draws nifer o feysydd adrannau'r llywodraeth i gynnwys datblygu economaidd, twristiaeth, adfywio, a chydlyniant cymunedol. Nodir hyn i ryw raddau yn y Cynllun Gweithredu, yn bennaf ym Mhwynt Gweithredu 34, sy'n amlygu pwysigrwydd gweithio gyda Croeso Cymru ar y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd.

5.2 Cydweithio

Bu sawl ymdrech yn y blynyddoedd diwethaf i ffurfio corff rychwantol o ryw fath a fyddai'n rhoi modd i wyliau bwyd elwa o fwy o gydweithredu a mwy o ddylanwad. Mae Pwynt Gweithredu 33 yn y Cynllun Gweithredu yn trafod pwysigrwydd cydweithio gyda phartneriaid yn y sector ar weithgareddau hyrwyddo a datblygu'r farchnad, a chrybwyllir Cymdeithas Gwyliau Bwyd yn benodol ym Mhwynt Gweithredu 36 (iv) er mwyn gwella'r cydgysylltu.

Yr ymgais ddiweddaraf i ffurfio cymdeithas oedd yn 2014 pan gynigiwyd Cymdeithas Gwyliau Bwyd Cymru gyda'r amcanion canlynol:

- annog gwyliau bwyd i gydweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion a phroblemau cyffredin wrth drefnu gwyliau bwyd

- annog gwyliau bwyd i gydweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo eu digwyddiadau – yn enwedig y rhai y tu allan i ffiniau Cymru – ac i wella twristiaeth bwyd yng Nghymru
- trafod materion sy'n codi yn y dyfodol yn ymwneud â gwyliau bwyd a rhoi adborth yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, a chynnig cyngor a mewnbwn i Lywodraeth Cymru ar faterion fel ffrydiau ariannu, grantiau, ac ati.

Byddai'r aelodaeth yn agored i'r holl wyliau bwyd a byddai grwpiau rhanbarthol yn ethol cynrychiolwyr i bwyllgor cenedlaethol. Fodd bynnag, fel gydag ymdrechion blaenorol, mae'r fenter hon wedi dod i stop. Trafodwyd y rhesymau dros fethiant ymddangosiadol prosiectau o'r fath mewn cyfweiliadau gyda threfnwyr gwyliau bwyd a rhanddeiliaid strategol eraill, cyn trafod a ddylid bwrw ymlaen i ddatblygu cydweithio ai peidio, ac os dylid, sut i wneud hynny.

Roedd peth consensws ymhlith y rhai oedd wedi ymwneud yn uniongyrchol â dechrau creu cymdeithas mai'r eglurhad ar y pryd dros ei therfynu oedd diffyg cefnogaeth weinyddol. Byddai rhedeg y gymdeithas yn anochel wedi bod angen swyddogaeth ysgrifenyddiaeth i ymdrin â gohebiaeth, trefnu cyfarfodydd, ac i baratoi dogfennau ar sail nodiadau a gymerwyd yn ystod cyfarfodydd. Fodd bynnag, ymddengys nad oedd adnoddau ar gael ar gyfer hyn yn y lle cyntaf, gyda'r trefnwyr gwyliau bwyd yn teimlo nad oedd ganddynt y modd i dalu am y rôl ysgrifenyddol hon. Unwaith y byddai'r gymdeithas wedi cyrraedd pwynt o fod wedi llunio cynllun busnes ffurfiol, efallai y gellid o bosibl wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gymorth ysgrifenyddol, ond nid oedd yn bosibl cyrraedd y cam hwnnw heb gymorth o'r fath.

Y tu hwnt i'r rheswm hwnnw, fodd bynnag, roedd rhesymau eraill sy'n esbonio pam fod y parodrwydd i gydweithio'n ffurfiol yn amrywio rhywfaint ledled y gwyliau bwyd gwahanol. Er enghraifft, un o fanteision posibl cydweithio a grybwyllwyd gan y rhai a ddadleuai o blaid cynghrair mwy o faint oedd effeithlonrwydd prynu ar y cyd. Er y byddai'n ddichonadwy y gellid wedi cael rhywfaint o enillion ariannol yn hyn o beth, eto mae nifer o drefnwyr gwyliau bwyd yn gwerthfawrogi eu hannibyniaeth yn y maes hwn. Mae gan drefnwyr gwyliau bwyd yn aml berthynas hirsefydlog â masnachwyr y maent yn ymddiried ynddynt ac sy'n gwybod sut i ddarparu gwasanaethau pwrpasol

ar gyfer eu gŵyl fwyd hwy. Mewn rhai achosion, mae'r cyflenwyr lleol hyn yn ganolog i'r gwaith o redeg yr ŵyl, ac yn rhoi llawer o amser ac egni i'w gwneud yn llwyddiant. Ar lefel fwy strategol, mae trefnwyr gwyliau yn aml yn falch iawn o'u rôl yn hyrwyddo datblygiad economaidd lleol a byddent yn dymuno cadw eu gallu i ddewis cyflenwyr lleol, hyd yn oed pe byddai modd gwneud arbedion ymylol drwy brynu ar y cyd.

Mae yna deimlad hefyd ymhlith rhai, ond nid pob un, o'r trefnwyr gwyliau bwyd mwy o faint y byddent yn debygol o roi mwy i mewn i gymdeithas nag y byddent yn ei gael ohono. Soniwyd eisoes am y gofyniad adnoddau o ran swydd weinyddol, ond mae yna hefyd ymdeimlad y byddai gan y gwyliau bwyd mwy o faint sydd wedi hen ennill eu plwyf, neu'r rhai mwy llwyddiannus, lawer o wybodaeth werthfawr i'w rhannu, ond nid yw'n glir beth y byddent yn ei dderbyn yn gyfnewid gan y nifer cynyddol o ddigwyddiadau llai a ffurfiwyd yn fwy diweddar (a'r teimlad hwn o bosibl yn cael ei gymysgu ag ofnau ynghylch gorlwytho'r sector).

Mae rhesymau da pam nad yw cydweithio ffurfiol, mewn ystyr gyffredinol, wedi digwydd. Er gwaethaf hyn, ymddengys fod yna feysydd penodol lle gellid efallai archwilio mwy o gydweithio. Un enghraifft o hyn yw nawdd, sydd i'w weld yn brin yn y gwyliau bwyd llai o faint. Mae digwyddiadau llai o faint yn annhebygol o fod yn ddeniadol i noddwyr unigol ac mae'n bosibl nad oes gan y trefnwyr y wybodaeth neu'r cysylltiadau angenrheidiol. Fodd bynnag, byddai pecynnau nawdd sy'n dwyn ynghyd gwyliau bwyd sy'n denu mathau tebyg o grwpiau ymwelwyr yn rhoi modd i noddwyr posibl gyrraedd cynulleidfa llawer mwy o faint heb orfod trafod gyda'r gwyliau bwyd unigol, ac felly gall wneud y sector yn haws i'w noddi. Mae creu, hyrwyddo a gweinyddu bwndeli noddi, wrth gwrs, yn dasgau ynddynt eu hunain, gan godi'r mater gweinyddol a drafodwyd yn flaenorol. Ffordd arall bosibl o fwrw ymlaen â chydweithio fyddai datblygu clystyrau lle gallai gwyliau bwyd sy'n rhannu diddordebau gydweithio gyda'i gilydd. Gallai'r clystyrau hyn fod naill ai'n ddaearyddol neu'n thematig (e.e. gwyliau bwyd sy'n canolbwyntio ar hybu math arbennig o gynnyrch), yn dibynnu ymhle y byddai synergeddau yn codi'n fwyaf naturiol. Mae cyfyngu'r cydweithio i bwnc unigol neu o fewn clystyrau penodol yn hwyluso'r costau cydgysylltu. Serch hynny, mae'n debygol y byddai angen trydydd parti i gynnig yr arweinyddiaeth gychwynnol a'r adnoddau gweinyddol.

6 Effaith Economaidd Gwyliau Bwyd

Mae'r bennod hon yn disgrifio ac yn dadansoddi i alluogi amcangyfrif yr effaith economaidd sy'n deillio o gynnal gwyliau bwyd yng Nghymru. Mae effeithiau economaidd yn codi o fanteision sy'n deillio o'r gwyliau bwyd i'r ardaloedd lle cynhelir y digwyddiadau (e.e. o wariant trefnwyr yr ŵyl a'r ymwelwyr) a manteision i'r arddangoswyr bwyd a diod (e.e. drwy werthu yn yr ŵyl a gwerthiant diweddarach a wneir o ganlyniad i'r ŵyl). Mae'r gwerthoedd sy'n gysylltiedig â'r elfennau hyn wedi'u casglu drwy'r ymchwil wreiddiol ar gyfer y prosiect, gan arwain at nodi effeithiau uniongyrchol gros. Defnyddiwyd meincnodau a thybiaethau safonol wedyn i symud o'r amcangyfrifon gros hyn i'r amcangyfrifon net terfynol.

Crynodeb

- Amcangyfrifir bod yr arian sy'n cael ei wario gan drefnwyr i gynnal gwyliau bwyd yn rhoi hwb o £1.4m i'r economi
- Mae mynychwyr yn gwario amcangyfrif o £3.82m mewn gwyliau bwyd (yn seiliedig ar wariant a adroddwyd yn y digwyddiadau yr ymwelwyd â nhw)
- Amcangyfrifir bod yr ymwelwyr o'r tu allan i Gymru sy'n cael eu denu i wyliau bwyd yn dod â £3.7m ychwanegol i economi Cymru (yn seiliedig ar wariant a adroddwyd gan ymwelwyr yn y digwyddiadau yr ymwelwyd â nhw)
- Gall gwerth gwyliau bwyd i'r arddangoswyr mewn gwerthiant anuniongyrchol fod yn sylweddol uwch na'r gwerthiannau a wnaed yn y digwyddiadau eu hunain (amcangyfrifir bod gwerthiannau anuniongyrchol yn £17m, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arddangoswyr)

6.1 Gwariant Cynnal Gŵyl Fwyd

Amcangyfrifir mai'r gost o gynnal y 25 gŵyl fwyd a gafodd grantiau gan Lywodraeth Cymru yn 2015 oedd £1.2 miliwn, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan drefnwyr y gwyliau bwyd yn ystod y broses ymgeisio. O hyn, mae cyllid Llywodraeth Cymru o £138,000 yn cyfrannu 11 y cant at y costau rhedeg hyn. Bydd y gwariant gweithredol yn hwb i'r economi leol yn yr ardaloedd yng nghyffiniau'r gwyliau bwyd, ond i amcangyfrif maint yr effaith hon, mae'n rhaid rhoi cyfrif am y gwahanol

elfennau sy'n ychwanegu at yr effaith ac yn tynnu oddi arni. Er enghraifft, mae angen cyfrif sut y mae'r effaith yn chwyddo wrth iddi deithio i lawr y gadwyn gyflenwi (sef yr effaith luosydd) a chyfran yr arian y disgwylir ei golli o economi Cymru (sef colledion [*leakage*]).¹⁰ I roi amcangyfrif bras, defnyddiwyd meincnodau safonol sy'n trosi i gyfradd colli o 20 y cant ac effaith luosydd o 1.45 o fewn yr economi (c. 1.45).¹¹ Ar ôl cyfrif am yr effeithiau hyn, amcangyfrifir mai effaith ychwanegol net gwyliau bwyd sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru ar economi Cymru yw £1.39m.

6.2 Effaith Gwariant Ymwelwyr/Mynychwyr mewn Gwyliau Bwyd

6.2.1 Gwariant mynychwyr

Ar sail canlyniadau'r arolwg, y gwariant cyfartalog fesul oedolyn yn y gwyliau bwyd oedd £24.74 y pen. Mae'n wybyddus ei bod yn her amcangyfrif nifer yr ymwelwyr, gan fod rhai gwyliau bwyd yn ddigwyddiadau heb docynnau mewn lleoliadau canol tref. I wrthbwysu effeithiau chwyddiannol sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau hyn, mae gostyngiad o 30 y cant (yn seiliedig ar gymharu amcangyfrifon â rhai o ddata meincnod a gynhaliwyd gan Miller Research yn 2011¹²) wedi cael ei gymhwyso i amcangyfrifon a geir mewn ceisiadau am gyllid grant gŵyl fwyd. O gymhwyso'r gostyngiad cymesur hwn i gyfanswm y 273,000 o ymwelwyr a ragwelwyd yng ngheisiadau 2015, mae'n arwain at amcangyfrif o 191,100 o ymwelwyr mewn gwyliau bwyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sydd, yn ei dro, yn cyfateb i gyfanswm gwariant gros o tua £4.7m yn y gwyliau bwyd. Yn bwysig, fodd bynnag, mae'r gwariant gros yn cynnwys gwariant i brynu tocyn ac mae angen tynnu hyn o ffigwr gwario'r ŵyl. Unwaith eto, i fod yn gyson â gwaith ymchwil blaenorol, dylid pennu tuag 20 y cant o hyn ar docynnau, sy'n golygu fod y gweddill (c. £19.80) yn cael ei wario ar gynhyrchwyr a stondinwyr, sy'n cyfateb i £3.82m.

¹⁰ Tybir bod effeithiau dadleoli (*displacement*) a chyfnwid (*substitution*) yn rhai mewn enw yn unig.

¹¹ Gweler, er enghraifft, *Additionality Indicators*, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2010).

¹² *Monitoring and evaluation of food festivals supported by the Welsh Assembly Government*, Miller Research, 2011

6.2.2 Gwariant twristiaid

Pan oedd ymatebwyr yr arolwg yn dod o'r tu allan i Gymru, gofynnwyd iddynt faint yr oeddynt wedi'i wario ar eu trip ac i ba raddau yr oedd yr ŵyl wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ddod i Gymru. Yn seiliedig ar yr atebion i'r cwestiynau hyn, gellir amcangyfrif gwerth gwariant twristiaeth sydd wedi deillio o'r ymatebwyr ym mhob gŵyl. Mae'r canlyniadau hyn wedi'u crynhoi yn Nhabl 6.1 isod. Fel y gwelir, ymddengys bod y gwyliau yn amrywio'n fawr o ran faint o wariant twristiaeth y maent yn eu hysgogi.

Tabl 6.1: Gwariant net ychwanegol ar gyfartaledd y tu allan i wyliau ymysg ymwelwyr o'r tu allan i Gymru

Gŵyl	Nifer y mynychwyr a holwyd	Amcangyfrif gwariant ymatebwyr yr arolwg o'r tu allan i Gymru
Y Fenni	150	£4,110.68
Conwy	151	£9,129.45
Biwmares	152	£369.11
Arberth	150	£992.64
Casnewydd	151	£24.43
Sain Ffagan	155	£254.95
Cyfanswm	909	£14,881.26

Mae allosod gwariant cyfartalog ymwelydd fesul mynychwr yn ôl presenoldeb cyfun yr holl wyliau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cynhyrchu ffigwr o £3.1 miliwn. Ar ôl cymhwyso lluosyddion economaidd safonol, i gynrychioli effaith donnog y buddsoddiad ychwanegol ar yr economi (fel y gwnaed gyda gwariant gweithredol trefnwyr y gwyliau yn flaenorol), mae gwerth y gwariant gan dwristiaid sy'n gysylltiedig â gwyliau bwyd yn cael ei roi yn £4.5m.

Noder bod Adran 6.2.1 yn cynnwys *holl* wariant mynychwyr yn y gwyliau, gan gynnwys twristiaid. Effaith economaidd *ychwanegol* twristiaeth ar ben y swm hwn (h.y. heb gynnwys y swm y mae'r twristiaid yn ei wario yn y gwyliau bwyd eu hunain) yw £3.7m.

6.3 Dylanwad Presenoldeb mewn Gwyliau Bwyd ar Werthiannau Anuniongyrchol Arddangoswyr

Fel y trafodwyd yn flaenorol, nododd llawer o arddangoswyr eu bod yn credu bod eu presenoldeb mewn gwyliau bwyd nid yn unig yn arwain at werthiant uniongyrchol ond hefyd yn arwain at fanteision anuniongyrchol drwy farchnata, rhwydweithio, ac ymchwil a datblygu. Mae hyn yn anodd iawn ei fesur a phennu ei werth yn ariannol. Fodd bynnag, gofynnwyd i arddangoswyr roi amcangyfrif o gyfran eu gwerthiant y tybient y mae arddangos mewn gwyliau bwyd yng Nghymru wedi “*dylanwadu arni*”. Yn bwysig, mae hyn yn cynnwys gwerthiannau yn ystod y flwyddyn ariannol, felly mae’n cynnwys nid yn unig y gwerthu a wnaed yn yr ŵyl ei hun ond hefyd y gwerthiant/busnes sydd wedi’i gynhyrchu o ganlyniad i arddangos mewn gŵyl. Mae Tabl 6.2 yn cyflwyno canlyniadau’r cwestiwn hwn, ac ynddo gwelir bod tua hanner yr ymatebwyr yn priodoli llai nag 20 y cant o’u gwerthiant i wyliau bwyd, er bod tua 16 y cant o’r ymatebwyr yn priodoli o leiaf 40 y cant o’u gwerthiant i wyliau bwyd. Felly, er bod effaith y gwerthiannau anuniongyrchol yn fach iawn i lawer o’r arddangoswyr, gall, mewn rhai achosion, fod yn eithaf sylweddol.

Tabl 6.2: Tua pha gyfran o’ch gwerthiannau dros flwyddyn ariannol fydddech chi’n ei ddweud y mae arddangos mewn gwyliau bwyd yng Nghymru wedi “dylanwadu arni”?

Cyfran y gwerthiant y mae gwyliau bwyd wedi cael dylanwad arni	Nifer	Canran
0–20%	131	52.4%
20–40%	43	17.2%
40–60%	16	6.4%
60–80%	8	3.2%
80–100%	15	6.0%
Ddim yn gwybod	37	14.8%
Cyfanswm	250	100%

Yn seiliedig ar yr wybodaeth gan 176 o arddangoswyr a oedd hefyd yn barod i roi ffigyrau trosiant, gyda'i gilydd roedd yr ymatebwyr wedi priodoli cyfanswm o £3.96m o'r gwerthiannau i'w presenoldeb mewn gwyliau bwyd. Mae'r 176 o arddangoswyr a atebodd y cwestiynau hyn yn cynrychioli 19 y cant o'r 930 o arddangoswyr a gofnodwyd ym mhob gŵyl fwyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. O luosi gwerthiant cyfartalog y masnachwyr â nifer y masnachwyr a gofnodir, mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o £20.9 miliwn o werthiannau gros wedi'i ddylanwadu gan wyliau bwyd ledled yr holl fusnesau sydd wedi arddangos yng ngwyliau bwyd Llywodraeth Cymru yn 2015. O dynnu'r £3.8m yr amcangyfrifwyd yr oedd y mynychwyr wedi'i wario yn y gwyliau bwyd eu hunain, awgrymir mai gwerth anuniongyrchol mynychu gŵyl fwyd yw £17.1m. Noder bod y ffigwr yn llawer uwch na'r gwariant uniongyrchol gan fynychwyr mewn gwyliau bwyd a'i fod yn adlewyrchu pwysigrwydd y fasnach/gwerthiant anuniongyrchol, dilynol a gynhyrchir ar ôl gŵyl fwyd. Fodd bynnag, rhaid dehongli'r ffigwr hwn yn ofalus iawn, gan ei bod yn anodd iawn amcangyfrif gwir werth manteision anuniongyrchol ac mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig yn unig ar ganfyddiadau ac argraffiadau arddangoswyr.

6.4 Crynodeb

I grynhoi, mae'r bennod hon wedi ceisio rhoi rhyw syniad o effaith economaidd gwyliau bwyd. Mae'r holl amcangyfrifon yn dibynnu, i ryw raddau, ar ragdybiaethau a meincnodau. O fewn hyn, gellir llunio rhai amcangyfrifon yn fwy hyderus nag eraill. Mae'r ~£1.4 miliwn sy'n deillio o wariant gweithredol y trefnwyr gwyliau yn amcangyfrif sy'n gymharol syml, tra bod y £3.8 miliwn a wariwyd gan fynychwyr y gwyliau a'r £3.7m ychwanegol o weithgaredd twristiaid yn dibynnu ar y dybiaeth bod y chwe gŵyl yr ymwelwyd â hwy eleni yn gynrychioladol o'r holl wyliau bwyd a ariennir (ar ôl addasu ar gyfer lefelau presenoldeb).

Yr amcangyfrif mwyaf heriol i'w wneud yw gwerth y gwyliau bwyd i'r arddangoswyr. Y budd uniongyrchol yw'r £3.8m yr amcangyfrifir y mae mynychwyr yn ei wario yn y digwyddiadau. Serch hynny, nododd arddangoswyr ystod o fanteision eraill a all ddeillio o bresenoldeb mewn gwyliau bwyd, a'r rheiny'n amrywio o farchnata i rwydweithio a datblygu cynnyrch. Mae cyfweiliadau gydag arddangoswyr wedi awgrymu bod hyn, mewn rhai achosion, yn gallu cyfrif am gyfran sylweddol o'u gwerthiant blynyddol. Amcangyfrifir yn betrus fod y gwerthiannau anuniongyrchol hyn yn £17m, er bod y ffigur hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau a barn arddangoswyr a rhaid ei drin â gofal.

7 Crynodeb o'r Canfyddiadau

1. *Mae'r rhan fwyaf o arddangoswyr yn fusnesau micro sydd o bosibl ond yn mynychu gwyliau bwyd lleol*

Wrth ddehongli llawer o'r canfyddiadau a chanlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag arddangoswyr, mae angen cadw eu maint mewn cof. Mae'r rhan fwyaf o arddangoswyr yn hunangyflogedig, a'r gweddill yn cyflogi nifer fach o staff yn unig. Bydd y 40 y cant o arddangoswyr sydd â throsiant o £25,000 neu lai yn ei chael yn anodd cynnig cyflog llawn-amser rhesymol, hyd yn oed i'r perchennog. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys ymrwymiad i reoli datblygiad busnesau bach a chanolig yn y sectorau bwyd a diod (Pwynt Gweithredu 14), ac mae gan wyliau bwyd ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth. Byddai disgwyl i gynhyrchwyr bychain ganolbwyntio ar ddatblygu marchnadoedd lleol a chyfyngu ar gostau teithio i ddigwyddiadau y tu allan i'w hardal darged, a dyma'r hyn y mae'r canlyniadau wedi'i ddangos, gyda'r rhan fwyaf o fusnesau yn mynychu un ŵyl fwyd yn unig wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o gymysgedd o ddigwyddiadau eraill (lleol yn ôl pob tebyg). Er bod gwyliau bwyd lleol yn sianel isel ei chost i fusnesau bach a chanolig gael mynediad i'r farchnad bwyd a diod (Pwynt Gweithredu 23), mae'n bosibl y byddai'n werth ystyried cymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr bychain i oresgyn costau mynychu gwyliau bwyd y tu allan i'w hardal leol os yw hynny'n briodol i'w strategaeth fusnes.

2. *Mae pwysigrwydd strategol gwyliau bwyd i arddangoswyr yn mynd y tu hwnt i werthu uniongyrchol*

Er mai dim ond un ŵyl fwyd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru y mynychodd y mwyafrif o arddangoswyr, gall effaith mynd i'r digwyddiad fod yn eithaf pellgyrhaeddol i arddangoswyr. Mae'r rhan fwyaf o arddangoswyr yn ystyried gwyliau bwyd fel cyfle i hyrwyddo a marchnata eu busnes yn ogystal ag i werthu'n uniongyrchol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r arddangoswyr hefyd eu bod yn elwa o gynnal gweithgareddau ymchwil a datblygu. Felly, er bod y gwerthiannau uniongyrchol a wnaed yn y gwyliau bwyd yn werth tua £3.8m i arddangoswyr, mae'n bosibl fod y manteision anuniongyrchol yr un mor werthfawr. Yn wir, yn seiliedig ar ganfyddiadau ac argraffiadau arddangoswyr, gallai'r manteision anuniongyrchol hyn

fod yn werth cymaint ag £17m. Er bod rhaid trin y ffigwr hwn yn ofalus, mae'n amlwg fod yna *ganfyddiad* neu argraff ymhlith arddangoswyr fod pwysigrwydd strategol i wyliau bwyd sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r trafodion a wnaed ar y diwrnod.

Mae gan wyliau bwyd, felly, ran bwysig i'w chwarae mewn amryw o weithgareddau gwerthfawr y tu hwnt i'r gwerthiannau uniongyrchol a grybwyllir yn y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys arloesi (Pwynt Gweithredu 20), datblygu sgiliau (Pwyntiau Gweithredu 4 a 5), rhwydweithio (Pwynt Gweithredu 21), a datblygu marchnadoedd lleol a thwristiaeth (Pwynt Gweithredu 31). Fodd bynnag, ceir amrywiaeth yn y graddau y mae arddangoswyr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ac efallai y bydd cyfle i hyrwyddo arfer gorau yn rhai ohonynt (e.e. gwneud yn siŵr fod manylion cwsmeriaid newydd yn cael eu cofnodi er mwyn cysylltu â nhw yn y dyfodol, cynnal profion, casglu adborth yn ymwneud â marchnata (megis pecynnu, enwau cynnyrch, graddfa prisiau)). Byddai'n siŵr yn werthfawr tynnu sylw at enghreifftiau o arddangoswyr sydd â dull arbennig o soffistigedig yn yr elfennau anuniongyrchol hyn, gan efallai arwain at gyngor ymarferol syml i fusnesau bwyd a diod sydd am fanteisio i'r eithaf ar fynychu digwyddiadau.

3. Mae gwyliau bwyd yn hyrwyddo cynnyrch o Gymru yn effeithiol

Yn ychwanegol at werth economaidd uniongyrchol gwyliau bwyd i arddangoswyr, ardaloedd ac economi Cymru, gellid hefyd ystyried gwyliau bwyd yn rhan o agenda ehangach i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Mae Pwynt Gweithredu 36 yn y Cynllun Gweithredu yn datgan y gellir rhoi cymorth i ddigwyddiadau sy'n codi proffil y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Awgryma canlyniadau o'r gwerthusiad bod trefnwyr y gwyliau bwyd a'r arddangoswyr yn gwneud yn union hyn, ac mae rhai arddangoswyr wedi rhoi enghreifftiau o sut y maent wedi ceisio'n mynd ati'n benodol i gysylltu eu nwyddau â'r brand 'cynnyrch o Gymru'. Mae'r Cynllun Gweithredu yn caniatáu ar gyfer y cysylltiad llac hwn, gan ddisgrifio'r brand Bwyd a Diod Cymru fel 'brand ymbarél', gan gydnabod y gall brandiau eraill ddod oddi tano (megis brandiau lleol a rhanbarthol a all ddatblygu i fod yn Enwau Bwyd wedi'u Hamddiffyn, fel y crybwyllir ym Mhwynt Gweithredu 27). Mae yna hefyd gyfleoedd naturiol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg (Pwynt Gweithredu 11), gan fod rhoi enwau Cymraeg ar frandiau bwyd a diod yn gallu pwysleisio eu dilysrwydd.


Ar ben hynny, mae'r mynychwyr hefyd yn gwerthfawrogi'n fawr iawn darddiad eu bwyd ac yn meddwl fod Cymru yn adnabyddus am fwyd hynod flasus ac am ansawdd da ei bwyd. Nid yw mynychwyr gwyliau bwyd o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r cyhoedd yn ehangach yn hyn o beth, ac nid yw hyn ychwaith yn awgrymu bod gwyliau bwyd yn gyfrifol am greu'r agweddau hyn (er bod mynychwyr wedi sôn bod eu hymwybyddiaeth o fwyd Cymru wedi cynyddu o ganlyniad i fynychu). Fodd bynnag, mae'r ffaith fod mynychwyr yn llwyr rannu'r gwerthoedd hyn gydag arddangoswyr a threfnwyr yn arwydd bod apêl gwyliau bwyd yn mynd y tu hwnt i'r weithred o'u mynychu, gan awgrymu eu bod yn taro tant diwylliannol ehangach. Ar y llaw arall, o safbwynt hyrwyddo, gellid dadlau bod gwyliau bwyd, i ryw raddau, yn pregethu i'r cadwedig, yn hytrach na hyrwyddo cynnyrch o Gymru i'r rhai a all fod yn fwy difater tuag at y peth ar hyn o bryd. I'r rhai sydd yn gweld gwerth i gynnyrch Cymru, mae tystiolaeth hefyd ei bod yn bwysig gwella'r dewisiadau sydd ar gael a'r gallu i gael gafael ar fwyd a diod pan fo mynychwyr yn dychwelyd adref (Pwynt Gweithredu 45).

4. Gall gwyliau bwyd dorri ar draws gwahanol feysydd polisi

Gellid dadlau bod modd segmentu'r gwyliau bwyd mewn unrhyw nifer o ffyrdd, ond wrth ddehongli canfyddiadau'r gwerthusiad hwn, mae ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau sy'n 'seiliedig ar le' a digwyddiadau sy'n 'seiliedig ar fwyd' yn arbennig o berthnasol. Er enghraifft, mae'r ffaith fod gan rai gwyliau bwyd ddiddordeb mwy cyffredinol mewn hyrwyddo a datblygu eu hardal leol (gan fod yn 'seiliedig ar le') fel petai'n esbonio pam fod rhai gwyliau wedi arallgyfeirio eu gweithgareddau ac yn teimlo fod y weithdrefn ymgeisio am gyllid grant yn gul, ynghyd â'u bod yn mynd ati'n weithredol i annog twristiaeth. Yn eu tro, mae gan y gwyliau bwyd hyn ddalgylchoedd ehangach ac maent wedi datblygu mwy o deyrngarwch i'w digwyddiad. Mae sylweddoli bod rhai gwyliau bwyd yn dilyn strategaethau sy'n fwy 'seiliedig ar le', sef nad bwyd a diod yw'r unig ffocws ac efallai nad y diben terfynol, yn debygol o fod yn bwysig wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol. Er bod digwyddiadau sy'n 'seiliedig ar le' yn cyd-fynd yn llai taclus ag amcanion Isadran Fwyd Llywodraeth Cymru, maent yn cynrychioli rhai o'r digwyddiadau pwysicaf ac mae'r rhan fwyaf o fynychwyr y digwyddiadau yn dal i ddweud bod bwyd a diod yn ganolog bwysig i'w profiad.

O safbwynt yr Is-adran Fwyd, gellid cefnogi sector bwyd a diod Cymru ar wahanol bwyntiau yn y gadwyn gyflenwi, o ddarparu cymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr (ymyriadau ar yr ochr gyflenwi) i hybu'r galw am gynnyrch o Gymru (ymyriadau ar ochr y galw). Mae digwyddiadau bwyd o bosibl yn fath unigryw o ymyrraeth gan eu bod yn eistedd yn daclus rhwng ymyriadau ar yr ochr gyflenwi ac ochr y galw, ond heb fod yr unig strategaeth ar gyfer cefnogi'r farchnad bwyd a diod.

Ffigwr 7.1: Pwyntiau yn y gadwyn gyflenwi y gellid cynnig ymyrraeth i gefnogi'r sector bwyd a diod yng Nghymru



Mae hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw hi fod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n gydlynol i gefnogi darpariaeth. Caiff hyn ei gydnabod, i ryw raddau, yn y Cynllun Gweithredu (Pwynt Gweithredu 34), wrth i'r Is-adran Fwyd gydweithio â Croeso Cymru ar y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd. Fodd bynnag, gall gwerth gwyliau bwyd ehangu ar draws nifer o feysydd adrannau'r llywodraeth i gynnwys datblygu economaidd, twristiaeth, adfywio, a chydlyniant cymunedol. Mae cyfiawnhad economaidd cryf dros gefnogi gwyliau bwyd, ac un diwylliannol hefyd gellid dadlau, ond cryfheir y ddadl hon, mewn rhai achosion, drwy gydnabod y rôl ehangach y gall digwyddiadau o'r fath ei chyflawni.

Atodiad A – Crynodebau o'r Gwyliau Bwyd Unigol

Er mwyn dysgu rhagor am nodweddion pob gŵyl unigol, lluniwyd crynodeb byr o'r gwyliau bwyd. Mae pob proffil yn edrych ar gyfansoddiad demograffig pob gŵyl, ymwybyddiaeth o'r ŵyl a'i hatyniad, adborth cyffredinol ar y digwyddiad, ac effaith gyffredinol y digwyddiad.

Gŵyl Fwyd y Fenni



Cyflwyniad


Llwyddodd Wavehill i siarad â 150 o ymwelwyr yng Ngŵyl Fwyd y Fenni 2015. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso atebion yr ymwelwyr ac yn astudio'r canlyniadau a'r canfyddiadau yn fanylach. Gweler y dystiolaeth yn y prif adroddiad i gymharu atebion yr ymwelwyr yn gyffredinol ledled y gwyliau bwyd a arolygwyd.

Cynhaliwyd Gŵyl y Fenni 2015 ar y 18^{fed}, 19^{eg} a'r 20^{fed} o Fedi ac roedd y tywydd yn heulog a chymylog. O'r 150 o ymwelwyr a holwyd, roedd 59 y cant (89/150) yn fenywod a 41 y cant (61/150) yn ddynion. Dywedodd 63 y cant (94/150) o'r ymatebwyr eu bod yn gyflogedig, 17 y cant (25/150) eu bod wedi ymddeol, 15 y cant (22/150) eu bod yn hunangyflogedig, 4 y cant (6/150) eu bod yn fyfyrwyr, a dywedodd 1 y cant eu bod un ai yn ddi-waith, yn weithiwr teulu di-dâl neu eu bod yn methu gweithio oherwydd salwch neu anabledd tymor hir.

Proffiliau'r Mynychwyr ac Ymwelwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn byw yn lleol neu yn y sir, yn byw yng Nghymru ond y tu allan i'r sir, neu'n ymwelydd i'r ardal. Ar y cyfan, roedd 17 y cant (25/150) o'r rhai a holwyd yn byw yn lleol, roedd 15 y cant (22/150) yn byw yn y sir, ac roedd 41 y cant (62/150) yn byw yng Nghymru ond y tu allan i'r sir. Mae gan yr ŵyl hefyd gyfran gymharol uchel o fynychwyr yn dod o'r tu allan i Gymru (27 y cant; 41/150).


Ffigwr A1.1: Cyfran yr ymwelwyr oedd yn byw yn lleol, yn byw yn y sir neu'n ymweld



Sylfaen: $n=150$


Yn ystod yr arolwg, gofynnwyd i ymatebwr am eu codau post, a defnyddiwyd y rhain i blotio o ble yr oeddynt wedi teithio. Fel y dengys Ffigwr A1.2, roedd mwyafrif yr ymwelwyr wedi dod o Dde Cymru, ond roedd llawer wedi dod o ledled y Deyrnas Unedig, ac ambell un o dramor.

Ffigwr A1.2: Map o godau post y bobl a holwyd



Dengys Ffigwr A1.3 fod 27 y cant (40/150) o'r mynychwyr yn ymweld â gŵyl fwyd yng Nghymru am y tro cyntaf. Gofynnwyd ymhellach i'r 110 a oedd wedi bod i wyl fwyd arall yng Nghymru a oedd hynny wedi bod yn ystod y 12 mis diwethaf – 'oedd' meddai 35 y cant (39/110) ohonynt.

Ffigwr A1.3: Ai dyma'r tro cyntaf i chi fynychu gŵyl fwyd yng Nghymru?




Sylfaen: n=150

Ymwybyddiaeth o'r Wyl Fwyd a'r atyniad i ddod iddi

Gofynnwyd i ymwelwyr sut y daethant i wybod am Wyl Fwyd y Fenni. Dengys Ffigwr A1.4 fod 52 y cant (78/150) yn gwybod am yr wyl fwyd gan eu bod wedi bod o'r blaen. Roedd 35 y cant (52/150) wedi clywed am yr wyl drwy rywun yn sôn amdani, sy'n awgrymu bod profiad mynychwyr blaenorol yn ddylanwad pwysig ar y nifer sy'n mynychu.


Ffigwr A1.4: Sut daethoch chi i glywed am yr ŵyl?



Sylfaen: n=150. Nodyn: mae'r ffigwr yn dangos ymatebion a roddwyd gan o leiaf 5 y cant o'r ymatebwyr, a gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

I archwilio hyn ymhellach, gofynnwyd wedyn i ymatebwyr nodi'r ffactorau a ddylanwadodd fwyaf ar eu penderfyniad i ddod i Ŵyl Fwyd y Fenni. Gwelir y ffactorau dylanwadol yn Ffigwr A1.5.

Ffigwr A1.5: Pa ffactorau a ddylanwadodd fwyaf arnoch i ddod i'r ŵyl heddiw?



Sylfaen: n=150. Nodyn: mae'r ffigwr yn dangos ymatebion a roddwyd gan o leiaf 5 y cant o'r ymatebwyr, a gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.


Adborth am yr Ŵyl

Gofynnwyd i ymatebwyr roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn “*ddim yn ei mwynhau o gwbl*” a phedwar yn “*wir yn ei mwynhau*”) o ran faint roeddynt yn mwynhau Gŵyl Fwyd y Fenni. Rhoddodd 84 y cant o'r ymatebwyr sgôr o bedwar allan o bedwar i'r ŵyl ('rhagorol'), a gweddill yr ymatebwyr wedi rhoi sgôr o dri allan o bedwar ('da').

Gofynnwyd i ymatebwyr roi marc i Ŵyl Fwyd y Fenni gan ddefnyddio graddfa pum pwynt, o ragorol hyd at wael, yn erbyn cyfres o feini prawf.

Mae Ffigwr A1.6 yn dangos sut mae'r ymatebion wedi'u gwasgaru yn erbyn pob maen prawf ac yn dangos, yn y rhan fwyaf o achosion, fod y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn disgrifio'r elfennau yn rhagorol neu'n dda.

Ffigwr A1.6: Beth yw eich barn am yr ŵyl o ran y canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 16 i 99 (ni chafodd y rhai a atebodd “methu ateb” eu cynnwys yn y dadansoddiad). Dylid nodi nad yw'r “cludfwyd” neu fwyd tecawê o reidrwydd yn fwyd parod yn ei ystyr traddodiadol, ond yn hytrach gall fod yn ‘fwyd i fynd’ wedi'i wneud o gynnyrch o safon.

Effaith yr Ŵyl Fwyd

Gofynnwyd i'r bobl oedd yn byw yn y sir i roi marc ar raddfa o un i bedwar o ran faint yr oedd yr ŵyl wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ddod i'r Fenni heddiw (sef un yn “ni wnaeth ddylanwadu ar fy mhenderfyniad o gwbl” a phedwar yn “dyma'r prif ddylanwad ar fy mhenderfyniad”), a dengys y canlyniadau fod 72 y cant (34/47) o'r bobl oedd yn byw yn y sir wedi dweud mai'r ŵyl oedd y prif ddylanwad ar eu penderfyniad i ymweld â'r Fenni y diwrnod hwnnw.

Roedd cyfran uchaf yr ymwelwyr (40 y cant; 60/150) yn bwriadu aros yn yr ŵyl am y diwrnod cyfan, dywedodd 36 y cant (54/150) eu bod yn bwriadu aros yn yr ŵyl am ran o'r diwrnod, a dywedodd 24 y cant (36/150) eu bod yn cynllunio aros yn yr ŵyl am fwy nag un diwrnod. Roedd y gwariant disgwyledig yn yr ŵyl yn uchel, gyda 38 y cant (57/150) o bobl yn bwriadu gwario rhwng £50 a £100, a 17 y cant (26/150) yn bwriadu gwario dros £100.

Gofynnwyd i ymatebwyr faint roeddynt yn disgwyl ei wario yn yr ardal leol, heb gynnwys yr ŵyl fwyd. Dywedodd y gyfran uchaf na fyddent yn gwario dim byd (13 y cant; 71/150) ond credai gweddiill y bobl y byddent yn gwario rhywfaint o arian yn lleol, fel rheol rhwng £19 a £50.

Gofynnwyd i ymatebwyr pa mor hir y byddent yn ymweld â'r Fenni, ac ymhle y byddent yn aros (os oeddynt yno am fwy nag un diwrnod). Dengys Tabl A1.1 fod y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn y Fenni am ymweliad undydd (69 y cant; 71/103).

Tabl A1.1: Pa mor hir ydych chi'n aros yn yr ardal?


	N	Canran
Ymweliad undydd	71	69%
Aros dros nos	32	31%

Sylfaen: n=103

Agweddau Ymwelwyr Gŵyl Fwyd y Fenni

Gofynnwyd i'r mynychwyr a holwyd a oedd eu hymweliad â'r ŵyl fwyd wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol – teimlai 95 y cant o'r ymatebwyr ei fod (gyda 63 y cant yn ateb “do, yn sicr” a 32 y cant arall yn ateb “do, fwy na thebyg”).


Ffigwr A1.7: A yw mynychu'r wyl fwyd wedi cynyddu eich ymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol?



Sylfaen: n=149 (ni chafwyd ateb gan un ymatebydd)

Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddynt yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am fwyd o Gymru, ac mae'r canlyniadau hyn i'w gweld yn Ffigwr A1.8.

Ffigwr A1.8: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 148 i 150

I gloi, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach. Mae'r atebion nodweddiadol a gafwyd i'w gweld isod:

"Mae llawer o'r cynhyrchwyr o tu allan i Gymru."

"Pris mynediad yn rhy ddrud."

"Anhygoel sut maen nhw wedi'i osod allan. Mae parcio yn rhwydd."

"Doedd e ddim yn dweud ar y map lle roedd yr adran bysgod, na ble roedd unrhyw adran benodol."

"Rwy'n credu ei fod wedi'i wneud yn dda iawn – mae rhywbeth i bawb."

"Byddai wedi bod yn dda cael y daflen wybodaeth wrth brynu tocynnau ar-lein. Pan gyrhaeddais, dim ond ar ddamwain y des i ar draws y daflen."

"Angen rhagor o fannau eistedd. Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn cael taflen map am ddim wrth i chi ddod mewn."

"Mae yna lawer o amrywiaeth yma ac mae'n wir yn portreadu bwyd/ffermwyr Cymru yn gadarnhaol."

"Digwyddiad da iawn. Wedi'i drefnu'n dda. Atyniad gwych i ymwelwyr. Yn ei roi ar y map."

"Roedd ble i brynu bandiau arddwrn yn gymhleth – dim digon o gyfarwyddyd."

Gŵyl Fwyd Biwmares



Cyflwyniad


Siaradodd Wavehill â 152 o ymwelwyr yng Ngŵyl Fwyd Biwmares 2015. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso ymatebion yr ymwelwyr ac yn astudio'r canlyniadau a'r canfyddiadau yn fanylach. Gweler y dystiolaeth yn y prif adroddiad i gymharu atebion yr ymwelwyr yn gyffredinol ledled y gwyliau bwyd a arolygwyd.

Cynhaliwyd gŵyl Biwmares 2015 yn ystod y penwythnos 12^{fed}-13^{eg} Medi ac roedd y tywydd yn heulog a chymylog. O'r 152 o ymwelwyr, roedd 41 y cant (62/152) yn ddynion a 59 y cant (90/152) yn fenywod. Roedd 64 y cant (97/152) o'r ymwelwyr i'r ŵyl y siaradom â nhw yn gyflogedig, roedd 21 y cant (32/152) wedi ymddeol, 9 y cant (14/152) yn hunangyflogedig, 4 y cant (6/152) yn fyfyrwyr, dau yn weithwyr teulu di-dâl, ac roedd un yn ddi-waith.

Proffiliau'r Mynychwyr a'r Ymwelwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn byw yn lleol neu yn y sir neu'n ymwelydd i'r ardal. Roedd 43 y cant o'r rhai a holwyd yn ymweld â Chymru (65/152), er bod dros draean (28 y cant) yn byw o fewn pum milltir i'r digwyddiad, a hyn yn dangos y cymysgedd o bobl leol a phobl ar eu gwyliau a oedd wedi dod i'r digwyddiad.


Ffigwr A2.1: Cyfran yr ymwelwyr oedd yn byw yn lleol, yn byw yn y sir neu'n ymwelydd



Sylfaen: n=152


Mae'r map isod yn Ffigwr A2.2 yn plotio'r codau post a roddwyd gan yr ymwelwyr.

Ffigwr A2.2: Map o godau post y bobl a holwyd



Gofynnwyd i'r mynychwyr ai dyma'r tro cyntaf yr oeddynt wedi mynychu gŵyl fwyd yng Nghymru. Dengys Ffigwr A2.3, yn gyffredinol, fod 53 y cant (80/152) o'r ymwelwyr i Wyl Fwyd Biwmares wedi mynychu gŵyl fwyd yng Nghymru o'r blaen.

Ffigwr A2.3: Ai dyma'r tro cyntaf i chi fynychu gŵyl fwyd yng Nghymru?




Sylfaen: n=78

Ymwybyddiaeth o'r Wyl Fwyd a'r atyniad i ddod iddi

Gofynnwyd i ymwelwyr sut y daethant i wybod am Wyl Fwyd Biwmares. Dengys Ffigwr A2.4 fod 57 y cant (87/152) o'r ymatebwyr wedi gweld deunydd hyrwyddo.


Ffigwr A2.4: Sut daethoch chi i glywed am yr wyl?



Sylfaen: n=152

I archwilio hyn ymhellach, gofynnwyd wedyn i ymatebwyr nodi'r ffactorau a ddylanwadodd fwyaf ar eu penderfyniad i ddod i Wyl Fwyd Biwmares. Mae Ffigwr A2.5 yn dangos mai prynu bwyd a diod lleol a'r lleoliad oedd y ffactorau mwyaf dylanwadol i'r bobl y buom yn siarad â nhw.

Ffigwr A2.5: Pa ffactorau a ddylanwadodd fwyaf arnoch i ddod i'r wyl heddiw?



Sylfaen: n=152. Nodyn: mae cyfanswm y canrannau dros 100 y cant, gan y gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Adborth am yr Wyl

Gofynnwyd i ymatebwyr roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn “*ddim yn ei mwynhau o gwbl*” a phedwar yn “*wir yn ei mwynhau*”) o ran faint roeddynt yn mwynhau Gŵyl Fwyd Biwmares. Dywedodd 65 y cant (98/150¹³) o’r ymatebwyr eu bod wir yn ei mwynhau. Dim ond pedwar ymatebydd a roddodd sgôr isel o un neu ddau, a gofynnwyd i’r rhain egluro eu rhesymau am y sgôr hwn. Rhestrir y rhain isod:

“Dydi o ddim cystal â’r llynedd, mae ar raddfa llawer llai ac rydych yn dal yn gorfod talu’r un faint i ddod mewn felly rydw i’n siomedig.”

“Y gwendid mwyaf yw bod digon o bobl yn gwerthu bwyd ond dim manau eistedd. Roedd hi’n llawer gwell y llynedd ar y strydoedd – roedd fel petai mwy o stondinau a phobl yno.”

“Does dim llefydd i eistedd yma ac rydw i’n cael trafferth cerdded yn bell neu fod ar fy nhraed am hir. Does dim bwyd môr yma ac rydyn ni reit ar y Fenai lle maen nhw’n cynaeafu cregyn gleision, ac ati.”


¹³ Nid oedd dau ymatebydd yn gallu rhoi sgôr.

“Gormod o fanion yma ac acw. Angen mwy o lefydd pysgod a chig. Gallwn gael y bwyd hwn lle rydyn ni’n siopa. Meddwl y byddai’n fwy o faint.”

Gofynnwyd i’r ymatebwyr wedyn am eu barn am yr ŵyl (o ‘rhagorol’ i ‘gwael’) yn erbyn cyfres o feini prawf.

Mae Ffigwr A2.6 isod yn mapio sut mae’r ymatebion wedi’u gwasgaru yn erbyn pob maen prawf ac yn dangos o ran y rhan fwyaf o feini prawf fod y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn disgrifio’r elfennau yn rhagorol neu’n dda, er bod nifer amlwg o ymatebwyr o’r farn fod y wybodaeth am safle’r ŵyl yn wael. Dylid nodi nad yw’r “cludfwyd” neu fwyd tecawê o reidrwydd yn fwyd parod yn ei ystyr traddodiadol, ond yn hytrach gall fod yn ‘fwyd i fynd’ wedi’i wneud o gynnyrch o safon.

Ffigwr A2.6: Beth yw eich barn am yr ŵyl o ran y canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 40 i 150 (ni chafodd y rhai a atebodd “methu ateb” eu cynnwys yn y dadansoddiad)

Effaith yr Ŵyl Fwyd

Gofynnwyd i'r bobl oedd yn byw yn y sir i roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn “ni wnaeth ddylanwadu ar fy mhenderfyniad o gwbl” a phedwar yn “dyma'r prif ddylanwad ar fy mhenderfyniad”) o ran faint yr oedd yr ŵyl wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ddod i Fiwmares heddiw, a dengys y canlyniadau fod 92 y cant (65/70) o'r bobl oedd yn byw yn y sir wedi dweud mai'r ŵyl oedd y prif ddylanwad ar eu penderfyniad i ymweld â Biwmares heddiw.


Roedd cyfran uchaf yr ymwelwyr yn bwriadu aros yn yr ŵyl am ran o'r diwrnod, gyda dim ond 15 y cant (23/152) yn dweud eu bod yn bwriadu aros am y diwrnod cyfan. Roedd 45 y cant (68/152) o'r bobl yn bwriadu gwario rhwng £25 a £50, gydag 20 y cant (30/152) yn dweud eu bod yn bwriadu gwario dros £50.

Gofynnwyd i ymatebwyr faint roeddynt yn disgwyl ei wario yn yr ardal leol, heb gynnwys yr ŵyl fwyd. Er bod 24 y cant (36/152) yn dweud na fyddent yn gwario dim byd, credai eraill y byddent yn gwario rhywfaint yn lleol, gyda'r gyfran uchaf yn dweud eu bod yn bwriadu gwario rhwng £10 ac £20.

Agweddau Ymwelwyr Gŵyl Fwyd Biwmares

Dyweddodd 69 y cant (103/152) o ymatebwyr eu bod yn sicr bod mynychu'r ŵyl fwyd wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol, a 19 y cant (29/152) arall yn dweud ei bod mwy na thebyg wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth.


Ffigwr A2.7: A yw mynychu'r ŵyl fwyd wedi cynyddu eich ymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol?



Sylfaen: n=152

Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddynt yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am fwyd o Gymru, ac mae'r canlyniadau hyn i'w gweld yn Ffigwr A2.8. Mae'r canlyniadau, ar y cyfan, yn gadarnhaol am fwyd Cymru, ond roedd ymatebwyr yn llai siwr ymhle y gallent ei brynu na pha frandiau Cymreig oedd yn bodoli.

Ffigwr A2.8: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 136 i 152

I gloi, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach. Mae'r atebion nodweddiadol a gafwyd i'w gweld isod:

“Mae angen map i ddangos pa stondinau sydd yma a ble maen nhw. Mae'n well gen i pan fo'r cyfan ar un safle fel mae o eleni.”

“Gellid cael rhagor o gyfleusterau plant a byddai'n braf cael map o'r safle.”

“Mae popeth wir yn dda, mwy o seddi fyddai'n braf, lle hyfryd i fynd am dro iddo; y babell grefft yn ychwanegiad neis. Angen rhagor o gwrw Cymreig.”

“Cyfeillgar, wedi'i drefnu'n dda, parcio da. Mae'n syniad da, ffordd dda o gael gwahanol bethau at ei gilydd. Braf fod ganddynt rai stondinau crefft.”

“Gobeithio y byddant yn cael pethau'n iawn y flwyddyn nesaf. Os ydi'r fformat yr un fath dydw i ddim yn meddwl y bydda' i'n trafferthu dod. Roedd llawer mwy o stondinau a mwy o amrywiaeth llynedd.”

“Hoffwn i weld rhagor o stondinau bwyd môr.”

“Byddwn yn hoffi gweld mwy o fwyd organig – mae yna ddiddordeb mawr tuag at hynny – roeddwn wedi disgwyl mwy nag sydd yma.”

“Mae’n dda a bydd yr ardal yn elwa.”

“Dydi o ddim cystal â’r llynedd, mae ar raddfa llawer llai ac rydych yn dal yn gorfod talu’r un faint i ddod mewn felly rydw i’n siomedig.”

“Angen rhagor o seddi – mae’n welliant ar y llynedd oherwydd ei fod yn fwy o faint a threfn well ar y gosodiad, teimlo bod mwy o le yma.”

“Byddai wedi bod yn fuddiol cael map/taflen er mwyn i chi wybod pa bryd mae pethau’n cael eu cynnal fel yr arddangosiadau coginio, ac ati.”

Gŵyl Fwyd Conwy

Cyflwyniad




Llwyddodd Wavehill i siarad â 151 o ymwelwyr yng Ngŵyl Fwyd Conwy 2015. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso atebion yr ymwelwyr ac yn astudio'r canlyniadau yn fanylach. Gweler y dystiolaeth yn y prif adroddiad i gymharu atebion yr ymwelwyr yn gyffredinol ledled y gwyliau bwyd a arolygwyd.

Cynhaliwyd gŵyl Conwy 2015 ar y penwythnos 24^{ain}–25^{ain} Hydref ac roedd y tywydd yn gymysgedd o heulwen a chawodydd. O'r 151 o ymwelwyr a holwyd, roedd 52 y cant (79/151) yn ddynion a 48 y cant (72/151) yn fenywod. Roedd dau draean y bobl y siaradom â nhw yn gyflogedig (66 y cant; 99/151), 13 y cant (19/151) wedi ymddeol, 10 y cant (15/151) yn hunangyflogedig, 10 yn fyfyrwyr, ac roedd wyth yn ddi-waith.

Proffiliau'r Mynychwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn byw yn lleol neu yn y sir neu'n ymwelydd i'r ardal. Dim ond 14 y cant (21/151) o'r ymwelwyr i'r ŵyl oedd yn byw yn lleol (o fewn 5 milltir), ac roedd cyfran uchaf yr ymwelwyr naill ai'n byw yn y sir yn ehangach neu'n ymweld â Chymru.


Ffigwr A3.1: Cyfran yr ymwelwyr oedd yn byw yn lleol, yn byw yn y sir neu'n ymwelydd



Sylfaen: n=151


Mae'r map isod yn Ffigwr A3.2 yn plotio'r codau post a roddwyd gan yr ymwelwyr.

Ffigwr A3.2: Map o godau post y bobl a holwyd



Gofynnwyd wedyn i'r mynychwyr ai dyma'r tro cyntaf yr oeddynt wedi mynychu gŵyl fwyd yng Nghymru. Dengys Ffigwr A3.3, yn gyffredinol, fod 72 y cant (108/152) o'r ymwelwyr i Wyl Fwyd Conwy wedi mynychu gŵyl fwyd yng Nghymru o'r blaen.

Ffigwr A3.3: Ai dyma'r tro cyntaf i chi fynychu gŵyl fwyd yng Nghymru?




Sylfaen: n=151

Ymwbyddiaeth o'r Wyl Fwyd a'r atyniad i ddod iddi

Gofynnwyd i ymwelwyr sut y daethant i wybod am Wyl Fwyd Conwy. Mae Ffigwr A3.4 yn dangos bod 57 y cant (87/152) o'r ymatebwyr wedi mynychu'r wyl o'r blaen. Roedd cyfran uchaf yr ymwelwyr naill ail wedi bod i'r wyl o'r blaen (48 y cant; 72/151) neu wedi clywed rhywun yn sôn amdani (37 y cant; 56/151).


Ffigwr A3.4: Sut daethoch chi i glywed am yr wyl?



Sylfaen: n=151

I archwilio hyn ymhellach, gofynnwyd wedyn i ymatebwyr nodi'r ffactorau a ddylanwadodd fwyaf ar eu penderfyniad i ddod i Wyl Fwyd Conwy. Mae Ffigwr A3.5 yn dangos mai'r ffactorau dylanwadol oedd enw da'r digwyddiad ac er mwyn prynu bwyd a diod lleol.

Ffigwr A3.5: Pa ffactorau a ddylanwadodd fwyaf arnoch i ddod i'r wyl heddiw?



Sylfaen: n=151. Nodyn: mae cyfanswm y canrannau dros 100 y cant, gan y gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Adborth am yr Wyl

Gofynnwyd i ymatebwyr roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn “*ddim yn ei mwynhau o gwbl*” a phedwar yn “*wir yn ei mwynhau*”) o ran faint roeddynt yn mwynhau Gŵyl Fwyd Conwy. Dywedodd 97 y cant (147/151) o'r ymatebwyr eu bod naill ai yn “*ei mwynhau*” neu “*wir yn ei mwynhau*”. Rhoddodd dau ymatebydd sgôr isel o un neu ddau, a gofynnwyd i'r rhain egluro eu rhesymau am y sgôr hwn. Rhestrir y rhain isod:


“Diffyg trefn o ran y stiwardiaid; roeddwn wedi archebu tocynnau o flaen llaw a phan ofynnais iddynt ble i fynd fe wnaethant fy ngyrru'r ffordd anghywir.”

“Drud.”

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn am yr ŵyl (o 'rhagorol' i 'gwael') yn erbyn cyfres o feini prawf.

Mae Ffigwr A3.6 isod yn mapio sut mae'r ymatebion wedi'u gwasgaru yn erbyn pob maen prawf ac yn dangos o ran y rhan fwyaf o feini prawf fod y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn disgrifio'r elfennau yn rhagorol neu'n dda, er bod nifer amlwg o ymatebwyr (28 y cant; 19/69) o'r farn fod y wybodaeth am safle'r ŵyl yn wael. Dylid nodi nad yw'r "cludfwyd" neu fwyd tecawê o reidrwydd yn fwyd parod yn ei ystyr traddodiadol, ond yn hytrach gall fod yn 'fwyd i fynd' wedi'i wneud o gynnyrch o safon.

Ffigwr A3.6: Beth yw eich barn am yr ŵyl o ran y canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 11 i 151 (ni chafodd y rhai a atebodd "methu ateb" eu cynnwys yn y dadansoddiad)

Effaith yr Ŵyl Fwyd


Gofynnwyd i'r bobl oedd yn byw yn y sir i roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn *“ni wnaeth ddylanwadu ar fy mhenderfyniad o gwbl”* a phedwar yn *“dyma'r prif ddylanwad ar fy mhenderfyniad”*) o ran faint yr oedd yr ŵyl wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ddod i Gonwy heddiw, a dengys y canlyniadau fod 81 y cant (57/70) o'r bobl oedd yn byw yn y sir wedi dweud mai'r ŵyl oedd y prif ddylanwad ar eu penderfyniad i ymweld â Chonwy heddiw.

Roedd ychydig dros hanner (52 y cant; 78/151) o'r ymwelwyr a holwyd yn bwriadu aros yn yr ŵyl drwy'r dydd, gyda 35 y cant (53/151) yn bwriadu aros am ran o'r diwrnod ac 13 y cant (20/151) yn cynllunio aros am fwy nag un diwrnod. Bwriadai cyfran uchaf yr ymwelwyr (34 y cant; 51/151) wario rhwng £25 a £50, ond roedd rhai yn bwriadu gwario llawer mwy na hynny, gydag 11 y cant (17/151) o'r ymwelwyr, er enghraifft, yn bwriadu gwario dros £100.

Agweddau Ymwelwyr Gŵyl Fwyd Conwy

Gofynnwyd i'r mynychwyr a holwyd a oedd eu hymweliad â gŵyl fwyd yng Nghymru wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol. Dywedodd 57 y cant (86/151) o ymatebwyr eu bod yn sicr bod mynychu'r ŵyl fwyd wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol, a 28 y cant arall (43/151) wedi dweud ei bod mwy na thebyg wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth.


Ffigwr A3.7: A yw mynychu'r wyl fwyd wedi cynyddu eich ymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol?



Sylfaen: n=151

Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddynt yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am fwyd o Gymru, ac mae'r canlyniadau hyn i'w gweld yn Ffigwr A3.8.

Ffigwr A3.8: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 147 i 151

I gloi, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach. Mae'r atebion nodweddiadol a gafwyd i'w gweld isod:

"Digwyddiad gorau'r flwyddyn. Bwyd gwych ac awyrgylch gwych."

"Yn well na'r llynedd – llai o stondinau. Roedd gormod o bobl yn llenwi'r lle."

"Methu credu faint o fwyd a diod sydd ar gael, gwerth da iawn am eich arian."

"Parcio rhwydd. Rydyn ni'n mwynhau er gwaetha'r glaw."

"Mae'r ffi mynediad yn rhy ddrud. Hoffwn wybod i ble mae holl arian y tocynnau yn mynd."

"Gwerth da am arian a lleoliad cyfeillgar iawn."

"Mae'n wych, ac yn fwy o faint nag roedden ni'n ei ddisgwyl. Bwyd stryd anhygoel. Pris mynediad uchel."

"Mae'n iawn ond mae wedi mynd yn rhy fasnachol. Mae'n rhy brysur nawr. Angen gwasgaru pawb mwy."

"Gormod o stondinau o'r tu allan i Gymru – ddim yn marchnata cynnyrch Cymreig yn effeithiol."

Gŵyl Fwyd Arberth



Cyflwyniad

Llwyddodd Wavehill i siarad â 150 o ymwelwyr yng Ngŵyl Fwyd Arberth 2015. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso ymatebion yr ymwelwyr ac yn astudio'r canlyniadau a'r canfyddiadau yn fanylach. Gweler y dystiolaeth yn y prif adroddiad i gymharu atebion yr ymwelwyr yn gyffredinol ledled y gwyliau bwyd a arolygwyd.

Cynhaliwyd Gŵyl Arberth 2015 ar y 26^{ain} a'r 27^{ain} o Fedi ac roedd y tywydd yn heulog. O'r 150 o ymwelwyr a holwyd, roedd 71 y cant (106/150) yn fenywod a 29 y cant (44/150) yn ddynion. Dywedodd 47 y cant (71/150) o'r ymatebwyr eu bod yn gyflogedig, dywedodd 26 y cant (40/150) eu bod wedi ymddeol, dywedodd 15 y cant (23/150) eu bod yn hunangyflogedig, dywedodd 7 y cant (10/150) eu bod yn fyfyrwyr, ac roedd y gweddill yr ymwelwyr y siaradom ni â nhw yn methu gweithio oherwydd salwch neu anabledd tymor hir neu'n weithwyr teulu di-dâl.

Proffiliau'r Mynychwyr a'r Ymwelwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn byw yn lleol neu yn y sir, yn byw yng Nghymru ond y tu allan i'r sir, neu'n ymwelydd i'r ardal. Roedd cyfran uchaf (37 y cant; 55/150) yr ymwelwyr y siaradom â nhw yn byw yng Nghymru ond y tu allan i'r sir.


Ffigwr A4.1: Cyfran yr ymwelwyr oedd yn byw yn lleol, yn byw yn y sir neu'n ymweld



Sylfaen: n=150


Yn ystod yr arolwg, gofynnwyd i ymatebwrwr am eu codau post, a defnyddiwyd yr rhain i blotio o ble yr oeddynt wedi teithio. Fel y dengys Ffigwr A4.2, roedd mwyafrif yr ymwelwyr wedi dod o Dde Cymru, ond roedd llawer wedi dod o ledled y Deyrnas Unedig, ac ambell un o dramor.

Ffigwr A4.2: Map o godau post y bobl a holwyd



Dengys Ffigwr A4.3 fod 20 y cant (30/150) o'r mynychwyr yn ymweld â gŵyl fwyd yng Nghymru am y tro cyntaf. Gofynnwyd ymhellach i'r 120 a oedd wedi bod i wyl fwyd arall a oeddynt wedi mynychu gŵyl fwyd arall yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf – dywedodd 41 y cant (49/120) eu bod.

Ffigwr A4.3: Ai dyma'r tro cyntaf i chi fynychu gŵyl fwyd yng Nghymru?




Sylfaen: n=150

Ymwybyddiaeth o'r Wyl Fwyd a'r atyniad i ddod iddi

Gofynnwyd i ymwelwyr sut y daethant i wybod am Wyl Fwyd Arberth. Mae Ffigwr A4.4 yn dangos bod 43 y cant (65/150) yn gwybod am yr wyl fwyd gan eu bod wedi bod o'r blaen. Roedd 34 y cant (51/150) wedi clywed am yr wyl drwy rywun yn sôn amdani, sy'n awgrymu bod profiad mynychwyr blaenorol yn effeithio ar nifer y mynychwyr.


Ffigwr A4.4: Sut daethoch chi i glywed am yr wyl?



Sylfaen: n=150. Nodyn: mae'r ffigwr yn dangos ymatebion a roddwyd gan o leiaf 5 y cant o'r ymatebwyr, a gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

I archwilio hyn ymhellach, gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr nodi'r ffactorau a oedd wedi dylanwadu fwyaf ar eu penderfyniad i ddod i Wyl Fwyd Arberth. Mae Ffigwr A4.5 yn dangos y ffactorau a fu'n dylanwadu.

Ffigwr A4.5: Pa ffactorau a ddylanwadodd fwyaf arnoch i ddod i'r wyl heddiw?




Sylfaen: n=150. Nodyn: mae'r ffigwr yn dangos ymatebion a roddwyd gan o leiaf 5 y cant o'r ymatebwyr, a gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Adborth am yr Wyl

Gofynnwyd i ymatebwyr roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn “*ddim yn ei mwynhau o gwbl*” a phedwar yn “*wir yn ei mwynhau*”) o ran faint roeddynt yn mwynhau Gŵyl Fwyd Arberth. Rhoddodd 89 y cant o'r ymatebwyr sgôr o bedwar allan o bedwar i'r wyl ('rhagorol'), a gweddill yr ymatebwyr wedi rhoi tri allan o bedwar ('da').

Gofynnwyd i ymatebwyr roi marc i Wyl Fwyd Arberth gan ddefnyddio graddfa pum pwynt (o ragorol hyd at wael) yn erbyn cyfres o feini prawf. Mae Ffigwr A4.6 yn dangos sut mae'r ymatebion wedi'u gwasgaru yn erbyn pob maen prawf ac yn dangos, yn y rhan fwyaf o achosion, fod y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn disgrifio'r elfennau yn rhagorol neu'n dda.

Ffigwr A4.6: Beth yw eich barn am yr ŵyl o ran y canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 32 i 150 (ni chafodd y rhai a atebodd “methu ateb” eu cynnwys yn y dadansoddiad). Dylid nodi nad yw'r “cludfwyd” neu fwyd tecawê o reidrwydd yn fwyd parod yn ei ystyr traddodiadol, ond yn hytrach gall fod yn ‘fwyd i fynd’ wedi'i wneud o gynnyrch o safon.

Effaith yr Ŵyl Fwyd

Gofynnwyd i'r bobl oedd yn byw yn y sir i roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn “ni wnaeth ddylanwadu ar fy mhenderfyniad o gwbl” a phedwar yn “dyma'r prif ddylanwad ar fy mhenderfyniad”) o ran faint yr oedd yr ŵyl wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ddod i Arberth heddiw, a dengys y canlyniadau fod 71 y cant (57/80) o'r bobl oedd yn byw yn y sir wedi dweud mai'r ŵyl oedd y prif ddylanwad ar eu penderfyniad i ymweld ag Arberth heddiw.


Gofynnwyd i'r holl ymwelwyr pa mor hir yr oeddynt yn bwriadu aros yn yr ŵyl fwyd. Roedd cyfran uchaf yr ymwelwyr (71 y cant; 107/150) yn bwriadu aros yn yr ŵyl am ran o'r diwrnod, gydag 20 y cant (31/150) yn dweud eu bod yn bwriadu aros am y diwrnod cyfan. Bwriadai 42 y cant (63/150) o'r bobl wario rhwng £25 a £50, a 19 y cant (29/150) arall yn dweud eu bod yn bwriadu gwario dros £50.

Gofynnwyd i ymatebwyr faint roeddynt yn disgwyl ei wario yn yr ardal leol, heb gynnwys yr ŵyl fwyd. Er bod 25 y cant (37/150) yn dweud na fyddent yn gwario dim byd y tu allan i'r ŵyl, dywedodd 23 y cant eu bod yn disgwyl gwario rhwng £10 ac £20, ac roedd 22 y cant arall yn disgwyl gwario rhwng £20 a £50.

Agweddau Ymwelwyr Gŵyl Fwyd Arberth

Gofynnwyd i'r mynychwyr a holwyd a oedd eu hymweliad â'r ŵyl fwyd wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol. Teimlai 91 y cant o'r ymatebwyr ei bod wedi gwneud hynny (gyda 70 y cant (105/150) yn ateb "do, yn sicr" a 21 y cant arall (32/15) yn ateb "do, fwy na thebyg").


Ffigwr A4.7: A yw mynychu'r ŵyl fwyd wedi cynyddu eich ymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol?



Sylfaen: n=150

Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddynt yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am fwyd o Gymru, ac mae'r canlyniadau hyn i'w gweld yn Ffigwr A4.8.

Ffigwr A4.8: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 147 i 150

I gloi, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach. Mae'r atebion nodweddiadol a gafwyd i'w gweld isod:

“Mae digwyddiadau fel y rhain yn wych i hyrwyddo bwyd lleol.”

“Diwrnod gwych. Cyfeillgar iawn ac wedi'i drefnu'n dda.”

“Safle teuluol a chyfeillgar. Gobeithio y bydd yn parhau pan fydd Sainsbury's yn cymryd drosodd y safle.”

“Mae'n ddiwrnod mas gwych ac mae'n ddiddorol gweld y bwyd a'r sgysiau ac ati.”

“Mae'n hollol ffantastig. Denu llwyth o bobl i Arberth.”

“Mae'n ffantastig ac yn dda i'r gymuned – codi ymwybyddiaeth o gynnyrch lleol. Dylid cael un yn y gaeaf / Nadolig hefyd.”

“Rhagor ar gyfer plant. Bwyd anhygoel. Gwych i Arberth.”

“Rhagor o seddi, os gwelwch yn dda, ac yn rhatach wrth y giât! Byddem yn prynu rhagor wedyn.”

“Mae’n cynrychioli’r gorau o fwyd Cymru mewn ffordd ragweithiol. Mae yna awyrgylch sy’n gwneud i chi deimlo’n dda yma.”
“Mae’r parcio a theithio yn dda.”

Gŵyl Fwyd Casnewydd



Cyflwyniad


Llwyddodd Wavehill i siarad â 151 o ymwelwyr i Wyl Fwyd Casnewydd 2015. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso ymatebion yr ymwelwyr ac yn astudio'r canlyniadau a'r canfyddiadau yn fanylach. Gweler y dystiolaeth yn y prif adroddiad i gymharu atebion yr ymwelwyr yn gyffredinol ledled y gwyliau bwyd a arolygwyd.

Cynhaliwyd gŵyl Casnewydd 2015 ar y 3^{ydd} o Hydref, ac roedd y tywydd yn gymylog. O'r 151 o ymwelwyr, roedd 65 y cant (98/151) yn ddynion a 35 y cant (53/151) yn fenywod. Roedd mwyafrif (69 y cant; 104/151) y bobl y siaradom â hwy mewn cyflogaeth, a 9 y cant arall yn hunangyflogedig. Roedd 11 y cant (17/151) wedi ymddeol. Roedd yr ymwelwyr eraill y cawsom air â nhw yn fyfyrwyr (6), yn ddi-waith (7), ac yn weithwyr teulu di-dâl (4).

Proffiliau'r Mynychwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn byw yn lleol neu yn y sir neu'n ymwelydd i'r ardal. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn lleol i'r wyl (o fewn pum milltir).


Ffigwr A5.1: Cyfran yr ymwelwyr oedd yn byw yn lleol, yn byw yn y sir neu'n ymwelydd



Sylfaen: $n=151$

Gofynnwyd wedyn i'r mynychwyr ai dyma'r tro cyntaf yr oeddynt wedi mynychu gŵyl fwyd yng Nghymru. Dengys Ffigwr A5.2, ar y cyfan, fod 27 y cant (41/151) o ymwelwyr i Wyl Fwyd Casnewydd wedi mynychu gŵyl fwyd yng Nghymru o'r blaen.

Ffigwr A5.2: Ai dyma'r tro cyntaf i chi fynychu gŵyl fwyd yng Nghymru?




Sylfaen: $n=151$

Ymwybyddiaeth o'r Wyl Fwyd a'r atyniad i ddod iddi

Gofynnwyd i ymwelwyr sut y daethant i wybod am Wyl Fwyd Casnewydd. Mae Ffigur A5.3 yn dangos fod 39 y cant (59/151) o'r ymatebwyr wedi mynychu'r wyl o'r blaen.


Ffigur A5.3: Sut daethoch chi i glywed am yr wyl?



Sylfaen: n=151

I archwilio hyn ymhellach, gofynnwyd wedyn i ymatebwyr nodi'r ffactorau a ddylanwadodd fwyaf ar eu penderfyniad i ddod i Wyl Fwyd Casnewydd. Gwelir y ffactorau dylanwadol yn Ffigur A5.4.

Ffigwr A5.4: Pa ffactorau a ddylanwadodd fwyaf arnoch i ddod i'r wyl heddiw?



Sylfaen: n=151. Nodyn: mae cyfanswm y canrannau dros 100 y cant, gan y gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Adborth am yr Wyl


Gofynnwyd i ymatebwyr roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn “*ddim yn ei mwynhau o gwbl*” a phedwar yn “*wir yn ei mwynhau*”) o ran faint roeddynt yn mwynhau Gŵyl Fwyd Casnewydd. Dywedodd 70 y cant (104/148¹⁴) o'r ymatebwyr eu bod wir yn ei mwynhau, a dywedodd 30 y cant (44/148) arall eu bod yn ei mwynhau'n fawr.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn am yr wyl (o 'rhagorol' i 'gwael') yn erbyn cyfres o feini prawf.

Mae Ffigwr A5.5 isod yn mapio sut mae'r ymatebion wedi'u gwasgaru yn erbyn pob maen prawf ac yn dangos o ran y rhan fwyaf o feini prawf fod y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn disgrifio'r elfennau yn rhagorol neu'n dda.

¹⁴ Nid oedd tri ymatebydd yn gallu rhoi sgôr.

Ffigwr A5.5: Beth yw eich barn am yr ŵyl o ran y canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 24 i 151 (ni chafodd y rhai a atebodd “methu ateb” eu cynnwys yn y dadansoddiad)

Effaith yr Ŵyl Fwyd

Gofynnwyd i'r bobl oedd yn byw yn y sir i roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn “ni wnaeth ddylanwadu ar fy mhenderfyniad o gwbl” a phedwar yn “dyma'r prif ddylanwad ar fy mhenderfyniad”) o ran faint yr oedd yr ŵyl wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ddod i Gasnewydd heddiw, a dengys y canlyniadau mai'r ŵyl oedd y prif ddylanwad ar yr holl ymwelwyr o'r sir.


Roedd 87 y cant o ymwelwyr yn bwriadu aros yn yr ŵyl am ran o'r diwrnod, gyda 12 y cant (18/151) arall yn dweud eu bod yn bwriadu aros am y diwrnod cyfan. Roedd cyfran uchaf yr ymwelwyr (44 y cant; 66/151) yn disgwyl gwario rhwng £10 a £25 yn yr ŵyl.

Gofynnwyd i ymatebwyr faint roeddynt yn disgwyl ei wario yn yr ardal leol, heb gynnwys yr ŵyl fwyd. Er bod 32 y cant (48/151) wedi dweud na fyddent yn gwario dim byd, credai ymwelwyr eraill y byddent yn gwario'n lleol, gan amrywio o dan £10 (23 y cant; 36/151) i dros £50 (7 y cant; 11/151).

Agweddau Ymwelwyr Gŵyl Fwyd Casnewydd

Gofynnwyd i'r mynychwyr a holwyd a oedd eu hymweliad â gŵyl fwyd yng Nghymru wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol. Dywedodd 62 y cant (93/151) o ymatebwyr eu bod yn sicr fod mynychu'r ŵyl fwyd wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol, a 45 y cant arall (45/151) yn dweud ei bod mwy na thebyg wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth.


Ffigwr A5.6: A yw mynychu'r ŵyl fwyd wedi cynyddu eich ymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol?



Sylfaen: n=151

Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddynt yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am fwyd o Gymru, ac mae'r canlyniadau hyn i'w gweld yn Ffigwr A5.7.

Ffigwr A5.7: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 145 i 151

I gloi, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach. Mae'r atebion nodweddiadol a gafwyd i'w gweld isod:

“Gellid cael mwy o amrywiaeth – cynnyrch ffres yn hytrach na stwff wedi'i goginio'n barod.”

“Diwrnod mas da. Mae'n dod â phobl i Gasnewydd.”

“Rwy'n credu ei bod wir yn dda. Rwyf wedi fy siomi ar yr ochr orau gyda'r amrywiaeth a'r maint.”

“Os yw'r bwyd yn dda ac mae'n well gennym fwyd lleol, yna mae'n bwysig ble rydyn ni'n siopa.”

“Mae'n teimlo'n llai na llynedd. Mae'n dda i'r dref i'w chael yn y canol.”

“Dylid ei chynnal yn amlach – mwy nag unwaith y flwyddyn – mae'r ddinas yn dod yn fyw.”

“Byddai'n dda gweld mwy o fwyd stryd – rhostio mochyn a bwytai undydd.”

“Mae wedi bod yn wych hyd yn hyn. Nifer ac amrywiaeth y stondinau, safon yr arddangosiadau, roedd ganddynt sawl teledu a hynny'n beth da ac roedd ganddynt rywun yn sylwebu oedd yn rhagorol. Hyrwyddo da ar gynnyrch o Gymru.”

“Mae'n dda ei chael yma, yn enwedig gyda'r datblygiad newydd. Mwy o stondinau na'r tro o'r blaen. Pan fydd y datblygiad wedi gorffen, efallai y gallem gael gŵyl aeaf.”

“Mae'n wych. Braf ei gweld yn tyfu bob blwyddyn. Efallai cael un adeg y Nadolig gan ei fod yn dda i'r economi leol.”

“Mae'n ddiddorol iawn. Mae llawer o bobl wedi dod.”

“Mae Casnewydd yn brysur heddiw felly mae'n rhaid fod yr ŵyl yn dda i'r dref.”

“Gellid cael ychydig mwy i'r plant.”

“Wedi'i gosod yn dda, lle i gerdded drwodd yn dda. Dim digon o gyfleusterau toiled i ymdopi.”

Gŵyl Fwyd Sain Ffagan



Cyflwyniad


Llwyddodd Wavehill i siarad â 155 o ymwelwyr yng Ngŵyl Fwyd Sain Ffagan 2015. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso ymatebion yr ymwelwyr ac yn astudio'r canlyniadau a'r canfyddiadau yn fanylach. Gweler y dystiolaeth yn y prif adroddiad i gymharu atebion yr ymwelwyr yn gyffredinol ledled y gwyliau bwyd a arolygwyd.

Cynhaliwyd gŵyl Sain Ffagan 2015 ar benwythnos cyntaf mis Medi, ac roedd y tywydd yn braf a chymylog. O'r 155 o ymwelwyr y siaradom â nhw, roedd 41 y cant (63/155) yn ddynton a 59 y cant (92/155) yn fenywod. Roedd 63 y cant (97/155) o'r ymwelwyr i'r ŵyl a holwyd gennym yn gyflogedig, 19 y cant (30/155) wedi ymddeol, 7 y cant (11/155) yn hunangyflogedig, 5 yn fyfyrwyr, tri yn weithwyr teulu di-dâl, a chwech yn ddi-waith.

Proffiliau'r Mynychwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn byw yn lleol neu yn y sir neu'n ymwelydd i'r ardal. Roedd llawer o'r rhai a holwyd yn byw yng Nghymru ond yn dod o tu allan i'r sir (44 y cant; 68/155).

Ffigwr A6.1: Cyfran yr ymwelwyr oedd yn byw yn lleol, yn byw yn y sir neu'n ymwelydd



Sylfaen: n=155


Mae'r map isod yn Ffigwr A6.2 yn plotio'r codau post a roddwyd gan yr ymwelwyr.

Ffigwr A6.2: Map o godau post y bobl a holwyd



Gofynnwyd wedyn i'r mynychwyr ai dyma'r tro cyntaf yr oeddynt wedi mynychu gŵyl fwyd yng Nghymru. Dengys Ffigwr A6.3, ar y cyfan, fod 28 y cant (44/155) o'r ymwelwyr i Wyl Fwyd Sain Ffagan wedi mynychu gŵyl fwyd yng Nghymru o'r blaen.

Ffigwr A6.3: Ai dyma'r tro cyntaf i chi fynychu gŵyl fwyd yng Nghymru?




Sylfaen: n=155

Ymwybyddiaeth o'r Wyl Fwyd a'r atyniad i ddod iddi

Gofynnwyd i ymwelwyr sut y daethant i wybod am Wyl Fwyd Sain Ffagan. Dengys Ffigwr A6.4 fod 29 y cant (44/152) o'r ymatebwyr wedi mynychu'r wyl o'r blaen.


Ffigwr A6.4: Sut daethoch chi i glywed am yr wyl?



Sylfaen: n=155. Nodyn: mae cyfanswm y canrannau dros 100 y cant, gan y gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

I archwilio hyn ymhellach, gofynnwyd wedyn i ymatebwyr nodi'r ffactorau a ddylanwadodd fwyaf ar eu penderfyniad i ddod i Wyl Fwyd Sain Ffagan. Gwelir y ffigyrau dylanwadol yn Ffigwr A6.5.

Ffigwr A6.5: Pa ffactorau a ddylanwadodd fwyaf arnoch i ddod i'r wyl heddiw?



Sylfaen: n=155. Nodyn: mae cyfanswm y canrannau dros 100 y cant, gan y gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Adborth am yr Wyl

Gofynnwyd i ymatebwyr roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn “*ddim yn ei mwynhau o gwbl*” a phedwar yn “*wir yn ei mwynhau*”) o ran faint roeddynt yn mwynhau Gŵyl Fwyd Sain Ffagan. Dywedodd 67 y cant (119/153¹⁵) o'r ymatebwyr eu bod wir yn ei mwynhau, a 21 y cant yn dweud eu bod yn ei mwynhau. Dim ond dau ymatebydd roddodd sgôr isel o un neu ddau, a gofynnwyd i'r rhain egluro eu rhesymau am y sgôr hwn. Rhestrir y rhain isod:


“Ddim cystal â blynyddoedd blaenorol. Wedi stopio pobi bara ffres yn rhy gynnar.”
 “Teimlo'n llai na llynedd a dyw'r cownter wyl selsig (Scotch Egg) ddim yma.”

¹⁵ Nid oedd dau ymatebydd yn gallu rhoi sgôr.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn am yr ŵyl (o 'rhagorol' i 'gwael') yn erbyn cyfres o feini prawf.

Mae Ffigwr A6.6 isod yn mapio sut mae'r ymatebion wedi'u gwasgaru yn erbyn pob maen prawf ac yn dangos o ran y rhan fwyaf o feini prawf fod y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn disgrifio'r elfennau yn rhagorol neu'n dda. Dylid nodi nad yw'r "cludfwyd" neu fwyd tecawê o reidrwydd yn fwyd parod yn ei ystyr traddodiadol, ond yn hytrach gall fod yn 'fwyd i fynd' wedi'i wneud o gynnyrch o safon.

Ffigwr A6.6: Beth yw eich barn am yr ŵyl o ran y canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 41 i 155 (ni chafodd y rhai a atebodd "methu ateb" eu cynnwys yn y dadansoddiad)

Effaith yr Ŵyl Fwyd

Gofynnwyd i'r bobl oedd yn byw yn y sir i roi marc ar raddfa o un i bedwar (sef un yn "*ni wnaeth ddylanwadu ar fy mhenderfyniad o gwbl*" a phedwar yn "*dyma'r prif ddylanwad ar fy mhenderfyniad*") o ran faint yr oedd yr ŵyl wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ddod i Sain Ffagan heddiw, a dengys y canlyniadau fod 81 y cant (55/68) o'r bobl oedd yn byw yn y sir wedi dweud mai'r ŵyl oedd y prif ddylanwad ar eu penderfyniad i ymweld â Sain Ffagan heddiw.


Roedd cyfran uchaf yr ymwelwyr (79 y cant; 123/155) yn bwriadu aros yn yr ŵyl am ran o'r diwrnod, a 19 y cant (30/155) arall yn dweud eu bod yn bwriadu aros am y diwrnod cyfan. Bwriadai 35 y cant (54/155) o'r bobl wario rhwng £10 a £25, a dywedodd 38 y cant (59/155) eu bod yn bwriadu gwario rhwng £35 a £50.

Dywedodd 69 y cant o ymatebwyr nad oeddynt yn disgwyl gwario unrhyw arian ychwanegol ym mro'r ŵyl. Dywedodd eraill y byddent yn gwario rhwng £10 a £250.

Agweddau Ymwelwyr Gŵyl Fwyd Sain Ffagan

Dywedodd 61 y cant (94/155) o'r ymatebwyr eu bod yn sicr fod mynychu'r ŵyl fwyd wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol, a 29 y cant (45/155) arall yn dweud ei bod mwy na thebyg wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth.


Ffigwr A6.7: A yw mynychu'r wyl fwyd wedi cynyddu eich ymwybyddiaeth o fwyd a chynnyrch lleol?



Sylfaen: n=155

Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddynt yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am fwyd o Gymru, ac mae'r canlyniadau hyn i'w gweld yn Ffigwr A6.8. Roedd ymatebwyr, ar y cyfan, yn gadarnhaol am fwyd Cymru, ond roeddynt yn llai siŵr ymhle y gallent ei brynu na pha frandiau Cymreig oedd yn bodoli.

Ffigwr A6.8: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



Sylfaen: n = yn amrywio o 151 i 155

I gloi, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach. Mae'r atebion nodweddiadol a gafwyd i'w gweld isod:

“Wrth fy modd â pha mor drefnus y mae wedi'i osod allan. Mae wedi gwneud cryn argraff arnaf.”

“Credaf y dylid cael rhagor o doiledau a rhagor o wybodaeth am safleoedd y stondinau.”

“Mae'n dda hyrwyddo cynnyrch lleol.”

“Dyw e ddim mor enwog ag yr oedd e'n arfer bod. Bob amser wedi'i drefnu a'i osod mas yn dda. Diwrnod mas da.”

“Rhagor o lefydd eistedd gyda byrddau.”

“Angen rhagor o arwyddion. Angen rhagor o wybodaeth am y safle.”

“Dim hysbyseb am yr ŵyl ar wefan Sain Ffagan na sôn y byddai tâl parcio. Hefyd, roedd hi'n anodd i rai pobl barcio yn y cae.”

“Parcio yw'r unig broblem heddiw. Wedi'i osod mas yn dda. Diwrnod mas da.”

“Ychydig yn wahanol bob tro. Mae'n darparu ar gyfer pawb. Llawer mwy o bwyslais ar deuluoedd. Mwy o siaradwyr Cymraeg.”

“Roeddem yn disgwyl rhagor o bobl, mae'n ddistawach na'r arfer.”

wavehill
social and economic research